

ECO'R WYDDFA

Rhif 229

RHAGFYR 1996

Pris 30c



Ceri Olwen Hughes, enillydd Tlws yr Ifanc a Bethan Evans, enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

FE DDAETH YR EIRA



Daeth y gaeaf yn sydyn yr wythnos ddiwethaf, ac achosodd yr eira drafferthion mawr trwy'r Gogledd. Methodd llong anferth Caergybi ddychwelyd i'r porthladd, caewyd rhannau o'r A55, a dryswyd teithiau trên. Caewyd ysgolion a bu pentrefi cyfan heb drydan am o leiaf dridiau.

Deiniolen a Dinorwig ddiodeffodd waethaf ym mro'r Eco. Bu llawer heb drydan o ben bore Mawrth tan yn hwyr nos Fercher, os nad dydd Iau. Roedd wedi rhewi'n galed hefyd, a rhai cartrefi heb ddŵr am gyfnod. Achosodd y rhew broblemau mawr ar y ffyrdd gyda sawl damwain yng nghyffiniau Caernarfon fore Iau. Ddydd Mercher trefnwyd cinio poeth yn Ysgol Gwaun Gynfi i dros gant o bobol y pentref trwy gydweithrediad parod staff y gegin. Cwmni MANWEB dalodd am y cinio.

Bu cryn drafod yr wythnos ddiwethaf am y modd y gallodd MANWEB ddelio â'r argyfwng. Rhaid canmol y gweithwyr oedd allan yn y gwynt a'r eira yn trwsio'r gwifrau a'r polion. Gwnaethant waith ardderchog yn wyneb pob math o anawsterau. Ac mae'n siŵr bod holl staff MANWEB wedi gwneud eu gorau i helpu'r cwsmeriaid.

Ond er gwaethaf ymdrechion y gweithlu mae'n debyg iddi gymryd mwy o amser nag arfer i adfer y cyflenwad. Beio'r tywydd arbennig o arw oedd MANWEB gan fod y gwynt a'r rhew wedi peri bod

gwifrau a pholion yn syrthio, a'r eira trwchus yn rhwystro'r dynion rhag cyrraedd mannau anghysbell. Ond mae lle i ofni bod mwy na'r tywydd ar fai. Cawsom dywydd gwaeth cyn hyn heb i'r trydan gael ei dorri am gymaint o amser. Roedd y drwg wedi'i wneud cyn yr wythnos ddiwethaf. Onid y gwir yw bod yr holl ddiswyddiadau a wnaed gan MANWEB ers preifateiddio'r cwmni yn golygu nad oedd ganddo ddigon o weithwyr i ddelio â'r argyfwng? Gwadu hynny wna MANWEB a mynnu bod mwy na digon o weithwyr ar gael, yn arbennig ers i'r cwmni gael ei werthu i Scottish Power. Mae'n wir bod gweithwyr wedi dod o'r Alban yr wythnos ddiwethaf, ond mae lle i gredu bod eu gwaith hwy wedi ei lesteirio gan y ffaith nad oeddynt yn adnabod yr ardal. Ond mae pryder pellach ynghylch dibyniaeth MANWEB ar weithwyr o'r Alban mewn argyfwng: fel arfer mae'r Alban yn cael gwaeth tywydd na Chymru ac yng nghanol gaeaf caled go brin y bydd gweithlu Scottish Power ar gael i dodd draw i Ogledd Cymru. Faint gymer hi wedyn i MANWEB drwsio'r gwifrau?

Gellir priodoli peth o'r bai am drafferthion yr wythnos ddiwethaf i MANWEB am dorri cymaint o swyddi yn ddiweddar. Rhaid hefyd feio'r Llywodraeth sy'n mynnu gwneud elw cyfranddalwyr y cwmnïau a breifateiddiwyd yn bwysicach na gwasanaeth effeithiol a digonol i'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaeth y cwmnïau hynny.

**BYDD
ATODIAD
EISTEDDFODAU'R
FRO
YN Y RHIFYN
NESAF O'R ECO**

**BYDD Y RHIFYN
NESAF YN CAEL
EI BLYGU YN
FESTRI
CAPEL Y RHOS
LLANRUG
am 6 o'r gloch
NOS IAU
RHAGFYR 19**

**Bydd angen 2 neu 3
O BOB PENTREF
i gynorthwyo**

ECO'R WYDDFA

Rhif 229
RHAGFYR 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-
y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 19
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, RHAGFYR 9
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 30	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	CHWEFROR 27	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 27	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	MAI 1	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 26	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 4	DINORWIG	—	—
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrau

AWSTRALIA'N GALW . . .

Annwyl Olygydd,

Wedi darllen dwy erthygl gan Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) yn yr Eco yn ddiweddar, ac wedi gwrandio hefyd ar gopi a anfonwyd inni o'r rhaglen 'Hogia'r Wyddfa yn Awstralia' a ddarlledwyd gan y BBC yn ddiweddar, rwy'n teimlo ei bod hi'n ddyletswydd arnaf i ymateb i'r erthyglau a hefyd y rhaglen a ddarlledwyd i wrandawyr Cymru, gan fawr obeithio y caf wneud hynny drwy yr Eco.

Roedd adroddiad Arwel am y daith yn reit dda a hefyd rhaglen Dafydd ar y BBC, ond er hyn i gyd cyfleu diolchiadau personol yr oeddynt ac mae'n rhaid imi bwyntio allan i'r Cymry mai nid 'unigolion' a ddaeth a'r Hogiau i Awstralia ond 'Y Gymdeithas Gymreig Sydney Cyf.'

Cymdeithas fechan iawn yw hon erbyn hyn ond y HI yn unig a ddaeth a nhw yma. Menter fawr i Gymdeithas fechan. Roedd problemau yn codi y naill ar ôl y llall ond y broblem fwyaf oedd trio egluro i'r Awstraliaid mai dim Côr oedd yr Hogia ond 'close harmony group' a 'husband & wife duet'. 'What is a

close harmony group?' meddent.

Roedd trio egluro iddynt yn fwy o gamp na rhoi cerrig mewn prunes, coeliwch fi. Rwy'n dal i gael ceisiadau ffôn yn holi, 'When will the Snowdon Mountain Group come back here and the husband and wife duet', sef Rosalind a Myrddin. Pwy â wyr ynte, mae'r syniad o ddod a grŵp allan yma eto yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

Hogia'r Wyddfa yw y grŵp Cymraeg cyntaf erioed i gael gwahoddiad i Awstralia. Roedd hyn yn fenter fawr i Gymdeithas mor fechan a ni. Dim gwneud arian oedd pwrpas y fenter hon, er y buasai elw wedi bod yn beth braf ond nid felly y bu. Dim arian yw popeth yn enwedig i ni fel Cymdeithas Gymreig. Roedd taenu diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn bwysicach i ni o lawer nag arian.

Rwy'n cloi y llythyr hwn trwy ddiolch i'r cymdeithasau Cymraeg yn Canberra, Castell Newydd a Woollengong; Cambrian Singers, Castell Newydd; Côr Cymysg Woollengong; Côr Meibion Sydney; rhaglenni radio cylch Canberra, Castell Newydd a Woollengong. Diolch arbennig i raglen radio Alan Jones yn Sydney ac i S.B.S. Welsh Radio (Dafydd Williams); y papurau lleol i gyd ac i gwmni awyrennau Cathay Pacific a BTA Awstralia. Ond y diolch pennaf i Gymdeithas Gymreig Sydney Cyf.

Yr eiddoch yn gywir,

J. P. D. URR
GRACE E. ROBERTS, Hon. Sec
Cymdeithas Gymreig Sydney Cyf.,
c/o 20/66 Fawcett Street
Glenfield 2167
Sydney, N.S.W., Awstralia.



Codi'r Faner Newydd

Annwyl Ddarllenwyr,

Cylchgrawn annibynnol Cymraeg yw Y Faner Newydd. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf adeg yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, ac fe fydd yn ymddangos yn chwarterol.

Y rheswm dros gyhoeddi'r cylchgrawn yw ceisio creu rhyw ganolbwynt fydd yn mynegi ethos Cymreig — ein dyheadau a'n delfrydau — a rhoi sylw i bobl go iawn ac i bethau go iawn gan anelu at fod yn ddifyr ac yn ddarllenadwy yr un pryd.

Yn y cylchgrawn fe geir amrywiaeth o erthyglau diddorol, portreadau, storïau, cerddi, trafod materion cyfoes, beirniadaeth lenyddol, erthyglau hanesyddol ac addysgol, ac yn y blaen.

Bwrdd golygyddol y cylchgrawn yw Tudur Dylan Jones, Ceu Llwyd, Idris Reynold, Gwynfor ab Ifor, Twm Morys, Iwan Edgar, Gareth Llwyd, Angharad Tomos, Glyn Tomos, Eryl Owain, Howard Huws, Robin Llywelyn, Myrddin ap Dafydd, Elwyn Edwards.

Mae rhifyn y gaeaf yn y siopau yn ystod mis Tachwedd ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan Islwyn Ffowc Ellis, Twm Morys, John Ogwen ac Eirug Wyn. (Yn lleol gellwch ei godi yn Siop Spar, Llanrug.)

Yn gywir,


IEUAN WYN ac EMYR LLYWELYN
(Golygyddion)
Talgarreg, Carneddi, Bethesda
Gwynedd LL57 3SG



GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

IEITHYDD ABERDARON

Cafodd merch o Lanrug help gan Eifion Jones ('Jonsi') a'i raglen ar Radio Cymru i ddeall llythyr yr oedd wedi'i dderbyn oddi wrth gyfaill o Croatia y dydd o'r blaen.

Wedi iddi anfon anrheg i blentyn trwy Ymgyrch Plentyn y Nadolig ddwy flynedd yn ôl cafodd Laura Evans, 7 Llain Gro, llythyr o ddiolch oddi wrth ferch fach o Croatia. Ers hynny mae Laura wedi anfon anrhegion eraill at Marina Kolic. Ond pan gyrhaeddodd y llythyr diweddaraf o Croatia nid oedd neb yn Llanrug yn gallu ei ddeall. Yn wahanol i llythyrau blaenorol Marina nid oedd hwn wedi ei gyfieithu i'r Saesneg. Methwyd a chael neb i'w gyfieithu yn y coleg ym Mangor.

Nain Laura feddylodd y gallai 'Jonsi' helpu a dyna ffonio'r rhaglen radio a gofyn a fedrai un o'r gwrandawyr gyfieithu'r llythyr. Daeth ateb o Aberdaron ac o fewn dim roedd y llythyr wedi ei gyfieithu gan Mrs Pippi Rehr.

Yn ei llythyr dywed Marina ei bod ar ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol a'i bod mewn iechyd da. Ond nid yw wedi cael dychwelyd i'w chartref ei hun. Nid yw'r tŷ wedi ei ail godi eto ers ei chwalu yn ystod y rhyfel.

Mae cannoedd wedi cefnogi'r Apêl Bocs Esgidiau yn yr ardal eleni eto, a bydd yr anrhegion Nadolig arbennig hynny yn cael eu hedfan o Faes Awyr Lerpwl i blant fel Marina ddechrau mis Rhagfyr.

*Drago Laura,
Dugo se nismo Evle nadom se da
si dobro ti i troja familifa.
Ja som dobro sada idem u skolu
u mrazred.
Kuci se isom vratila nos je kraj
sada slobodon ali nam je kuci
porisena pa se nemozema vratiti
dok kuci ne obnovimo Nadom se
da ce ti neko ovo prevesti i da ces
mi odgovoriti na oro pismo*

NIA

Cyngerdd gyda'r
gantores roc Gristnogol
yng NGHAPEL SALEM
CAERNARFON
NOS IAU, 12 RHAGFYR
CROESO CYNNES I BAWB



Hogia Ysgol Gwaun Gynfi yn cadw'n gynnes yn yr eira.

CALENDR 1997

HEN LUNIAU'R ARDAL

Llinell wag ar gyfer pob dyddiad
i sgwennu mân nodiadau.

Dwyieithog.

Pris: £2.50

Yr elw tuag at Gronfa Canolfan
Llanrug

Ar werth mewn siopau lleol neu
cysylltwch â:
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
(01286) 673515

SBRI'R YSGOLION SUL



Ymunodd plant rhai o Ysgolion Sul yr ardal ag Ysgolion Sul eraill o bob rhan o Arfon mewn diwrnod arbennig yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Yr oedd 'Sbri'r Ysgol Sul' yn hynod o lwyddiannus.

Cynhaliwyd y gweithgareddau ar ddydd Sadwrn. Yn y bore bu'r plant yn cymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth, celf a stori. Roedd y pŵn wedi ei neilltuo ar gyfer chwaraeon amrywiol. Roedd neuadd yr Ysgol yn orlawn o blant a'r athrawon yr Ysgol Sul wedi eu plesio yn fawr yn llwyddiant y diwrnod. Dyma'r tro cyntaf i'r 'Sbri' gael ei drefnu ar y patrwm hwn a gobeithio y gwelir gweithgareddau tebyg eto.



**Dydd Sul,
RHAGFYR 1af
DEWCH YN LLU I...**

FFAIR NADOLIG

gyda SIÔN CORN

TE :: COFFI :: MINS PEIS
ANRHEGION NADOLIG

YR ELW
TUAG AT
UNED
TRAWSBLANNU
ARENNAU
YSBYTY'R
ROYAL
LERPWL

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI A DRYSAU uPVC

Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£600**

Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£895**

Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£1,295**



(01286) 871774

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

Ffôn: 870605

RITHOEDD CELYN

COED NADOLIG

BRYSIWCH I ARCHEBU!

Ar agor saith diwrnod



O SIAMBAR SELWYN

Braidd yn ddiweddar efallai, ond rydwi wedi bod yn *spring clinio*. Do mi ddois i ar draws sawl darn o bapur a sawl hen gerdd yr oeddwn i wedi llwyr anghofio i mi eu cyfansoddi erioed. Un cyndyn fum i rioed i daflu unrhyw beth.

Mae dogfennau a chofnodion, llythyrau a chynlluniau ynglŷn â phlwyf Llanddeiniolen yn hawlio sawl silff a chwpwrdd. Gormod a deud y gwir — ond dyna fo, mae Llanddeiniolen yn un o'r plwyfi mwya yng Nghymru, ac mae dipyn o sdwff plwyfol wedi casglu dros gyfnod o ddeugain mlynedd. Mentrals daflu rhai pethau i'r fased. Rhaid clirio.

Mae yma ddwsinau o hen gesig o bryddestau a cherddi yr arferwn eu hanfon i eisteddfodau ledled Cymru fel prentis o fardd sawl blwyddyn yn ôl bellach. Cerddi sobor o wael hefyd — rhai ohonyn nhw — ond mi fuon nhw'n help i mi ddodrefnu fy nhŷ hefo cadeiriau esmwyth ers talwm, ac ambell gadair dderw draddodiadol gerfiedig hefyd. Aeth nifer o'r hen gerddi i'r fased sbwriel hefyd. Roeddwn i'n gwrido wrth eu darllen nhw.

Yng nghrombil un drôr mi ddois i ar draws ambell englyn a gyfansoddwyd flynyddoedd maith yn ôl. Rŵan, chydig iawn,

iawn a gyfansoddais i ar y mesurau caeth erioed, ac mi rydwi wedi datgan mewn sawl eisteddfod leol fy edmygedd o'r sawl sy'n llwyddo i lunio'r awdl salaf. Mae angen tipyn o amynedd a dyfal-barhad i lunio cerdd hir ar gynghanedd. O do, rydwi wedi dechrau yn llawn hyder sawl tro, ond wedi mynd yn sych cyn llunio hanner y llinellau a ddisgwyllir mewn awdl.

Y diweddar J. R. Morris, y llyfrwerthwr, a oedd yn byw yn Glanffynnon, Bethel, oedd yn egluro cyfrinion y gynghanedd i mi pan oeddwn yn gwisgo cap cownti sgŵl. Dwi'n cofio mynd ato i ddangos fy nghampwaith cynta — sef englyn digri ar gyfer Eisteddfod Môn ar y testun 'Y Papur Lleol'. Roedd hynny flynyddoedd cyn i'r un papur bro ymddangos. Credwn i mi gael llinell agoriadol wych, sef: *Beibl y werin bobl*, nes i J.R.M. dynnu fy sylw at y ffaith fod yna ffaith beth â *bai proest*. Newidiodd J.R.M. y llinell gynta, ac fe lwyddais innau i gael y wobr gynta dan feirniadaeth y diweddar brifardd ffraeth, John Evans, Llanegryn:

Y PAPUR LLEOL

*I bawb o'r werin bobol — rhy hen 'news'
Rhy hanesion plwyfol,
A Mari sy'n ymorol
Torri hwn yn 'doilet roll'.*

Bu cryn lythyru yn y papurau lleol am fod John Evans wedi meiddio gwobrwyo englyn a oedd yn cyfeirio at 'doilet roll' mewn pabell lèn a gynhaliwyd mewn *festri capel* ym Mhentraeth. Wn i ddim be fyddai beirniadaeth y *saint* heddiw o glywed ambell gerdd ar y 'Talwrn' sy'n 'Mynd dros ben llestri.'

Daeth englyn arall o ddyfnderoedd y drôr hefyd — englyn cwbl gwahanol ei naws. Englyn a anfonais i'r Tyst i goffâu *Iorwerth Hughes o Rhiwlas*, myfyriwr ifanc 24 oed a gyfarfu â damwain angeuol ychydig ddyddiau wedi iddo raddio ym Mhrifysgol Bangor:

*O'i glodydd wele'i gludo:— o afiaeth
Ei lafur astudio,
Mor aeddfed! Brudded ein bro,
Dristed rhoi blodau drosto.*

Drôr cerddi trist oedd hon mae'n amlwg gan i mi ganfod cerdd a gyfansoddais ar achlysur pan ddaeth y *Prifardd Herman Jones* i Ddeiniolen, gyda'r bwriad o roddi blodau ar fedd ei rieni ym mynwent Macpela. Bu Herman farw yn arswydus o sydyn, ac roedd y blodau a fwriadodd roi ar fedd ei rieni, ar ei arch o yng Nghapel Ebeneser, ac yn ddiweddarach yn gwywo ar ei fedd ym mynwent Macpela.

(Enillodd Herman Jones y goron am ei bryddest 'Ebargofiant' yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi, 1942 — un o eisteddfodau adeg y rhfeyl. Credaf ei fod yn fyfyrwr yng Ngholeg Bala-Bangor ar y pryd.)

ER COF AM HERMAN

*Daethost ar ymweliad
Â'th dusw yn dy law,
I gofio dy anwyliaid
Sy 'ngardd Macpela draw.*

*Heddiw'n Ebeneser
Trist gwyllo'r blodau parch,
Yn gollwng eu petalau
Fel dagrau ar dy arch.*

*Rwy't heno'n 'ngro Macpela
Yn huno yn ei hedd,
A thusw parch dy riaint
Yn gwywo ar dy fedd.*

Y drwg o ddechrau 'sbring clinio' ydi fy mod i'n dod ar draws hen bethau diddorol, a rhaid eistedd i lawr i'w darllen nhw, ac yn amlach na pheidio ei rhoi nhw'n ôl yn y drôr. Ydi

mae'n anodd taflu ambell beth i'r fased.

Mae 'na ddwsinau o hen bapurau newydd yma — a dyna chi bethau diddorol. Anodd rhoi hen bapur newydd o'r neilltu. Mae yma gwestiynau sawl cyfres o *Sion a Sian* a *Profi'r Pethe*. Os oes na unrhyw Gymdeithas yn y cylch angen cwestiynau ar gyfer noson o gwis llenyddol neu Sion a Sian — wel croeso i chi gael eu benthyca. Na, wnai ddim taflu rhain i'r bin sbwriel. Dwi ddim yn credu y gwnai daflu'r sgriptiau radio chwaith na hen rifynnau o *Barn, Barddas, Y Genhinen, Taliesin, Eco'r Wyddfa*, ac amryw eraill.

Wn i ddim pam yr es i drafferth i 'sbring clinio' wir, a minnau mor amharod i daflu unrhyw beth i'r fased.

Oes na rywbeth arall yn cuddio yn y drôr yma dudwch? Bedi rhain? Dew, dau englyn arall. Testun go amserol i un, o gofio i ni gael cyfle i bleidleisio yn ddiweddar:

Y TRWYN COCH

*Y trwyn coch thaid ei ochel, ma'i
berchen*

*Am barchu'r hen botel,
Mynn drwyn smwt sy'n dwt a del
I gipio swydd dy gapel.*

Testun go bigog sydd i'r llall:

Y NODWYDD

*Un ffymig mae'n uffernol — o din Wil
Fe dynn waed yn ddyddiol,
O! menyw annymunol
A bwia hon i'w ben-ôl.*

O do, mi ges i ddiwrnod difyr yn 'sbring clinio' un drôr — ond chydig o'i chynnwys aeth i'r fased. Rhaid i mi fynd ati o ddifri ddechra flwyddyn 'ma, neu yn nes at y gwanwyn efallai.

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr



ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR

NOSON MINS PEIS

Nos Fawrth, Rhagfyr 17eg
yn Siop Bryn Pistyll

7.00 p.m. ymlaen

yn cynnwys tynnu'r Raffl

CROESO I BAWB



DRAENOG



Glywsoch chi am y blaenor hwnnw fu'n holi hwn a'r llall un bore Sadwrn... eisiau benthyca tystysgrif bedydd ar gyfer gwasanaeth y diwrnod wedyn? Crwydrodd filltiroedd nes dod o hyd i un. A fynta'n gweithio bob dydd yn y Wasg sy'n argraffu'r tystysgrifau hynny!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi
a phob math
o lorau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: (01286)

650552

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Diolch: Dymuna Idwal a Lynwen Morris, Perthi, ddiolch o galon am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Yn ddiweddar bu farw Mrs Myfanwy Jones, Trigfa, Erw Bian. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth. Yn ystod y mis bu farw Mrs Thomas, Llan Isaf, Llanddeiniolen gynt. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Gwellhad Buan: Mae Mrs M. G. Williams, Gwylfa, gynt wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers tri mis bellach. Anfonir cofion cynnes yr ardal iddi gan ddyddmuno adferiad buan.

Bingo: Nos Fawrth, 10 Rhagfyr, mae'r Clwb Ffermwyr Ieuainc yn cynnal noson Bingo yn y Neuadd. Bydd gwobrau hael i'r enillwyr ac estynnir croeso i bawb.

Clwb Ffermwyr Ieuainc: Y mae tymor y gaeaf yn ei anterth erbyn hyn. Rydym wedi cael nosweithiau diddorol yn y Clwb a chafwyd noson hwyliog yn ymarfer Bowlio Deg yn Llandudno. Aeth llond bws mini i gyfarfod Clwb Pen-mynydd i gynnal Eisteddfod Dafarn. Ar Dachwedd 5 cynhaliwyd noson tân gwyllt a barbeciwr yn y Fachell.

Mae'r cystadlu ar gyfer y tarianau sirol wedi dechrau a chynhaliwyd cystadleuaeth barnu biff ac ŵyn yn Nhau Hirion, Ysbyty Ifan. Eleni eto fe ddaeth y ddwy darian yn ôl i'r Clwb — am y drydedd flwyddyn yn olynol — a'r tîm oedd Siôn W. Jones, Llŷr Griffiths, Gwilym Jones, Rhian Williams, Gerallt a Tudur Parry, ac Aled Jones. Da iawn chi, a phob hwyl i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Ffair Gaeaf a gynhelir yn Llanelwedd.

Y pedwar dewr a aeth i'r cwis sirol yn Nyffryn Ogwen oedd Sian Tomos, Lindsey V. Parry, Arwel Jones ac Aled Jones.

Eisteddfod Bentref: Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa. Roedd yn braf gweld y neuadd dan ei sang yn ystod cyfarfod y pawns. Diolch i'r pentrefwyr am droi allan i gefnogi.

Y beirniaid oedd — Cerdd: Arwyn Morgan, Penmorfa; Llên a Llefary: Siân Mair Roberts, Y Felinheli; Celf

a Chrefft: Dr Gwyn Pritchard, Llandwrog. Canmolwyd safon gwaith y plant a'r bobl ifainc gan y tri beirniad.

Manon Williams, Yr Efail, o Bl. 4 yr Ysgol Gynradd enillodd dlws Llên yr Ysgol Gynradd, ac Anest Williams, Y Ddraenen Fach, disgybl yn Ysgol Brynrefail enillodd dlws yr Ysgol Uwchradd. Y cyfeilyddion oedd Caryl Owen, Deilwen Hughes a Glenys Griffiths a'r arweinyddion oedd Ellen Ellis, Glenys Griffiths, Geraint Elis ac Iorwerth Williams. Bu Meleri Ellis, Sioned Davies, Awen Jones, Elen ac Eleri Robinson yn cynorthwyo ar y llwyfan drwy'r pawns.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr trefnwyd Gorsedd y Beirdd gan aelodau o Adran yr Urdd dan arweiniad Geraint Elis a Glenys Griffiths. Bethan Fôn Jones ganodd gân y cadeirio gyda Dewi Griffiths yn seinio'r corn gwlad. Y stiwardiaid oedd Dafydd Williams, Llanddwyn; Goronwy Jones, Gareth Hughes, Gwilym Williams, Siencyn Morgan Griffiths ac Alun Ffoulkes. Trefnwyd lluniaeth ysgafn yn y Neuadd gan Eirlys Sharpe, Nora Parry ac Eirlys Williams.

Yr Urdd: Bu nifer o aelodau'r gangen yn cymryd rhan mewn Gwasanaeth Sul yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghapel Coch, Llanberis prynhawn Sul diwethaf. Thema'r oedfa oedd UNICEF 1946-1996, 'Gwneud Byd o Les i Blant'. Cafwyd eitemau ar lafar ac ar gân gan blant Bethel yn ogystal â disgyblion o Ysgol Brynrefail. Y rhai gymerodd ran oedd Huw Foulkes, Marc Bardsley, Rhys Hughes, Sion Roberts, Gwenan Williams, Ffion Williams, Lois Hughes, Elen Foulkes a Kelly Williams, a gwnaeth pob un ei waith yn arbennig o raenus.

Clwb Bro Bethel: Cyfarfud Clwb yn festri'r Cysegr yn ddiweddar gyda Mrs Mary Hughes yn llywyddu. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Parchg Gwynfor Williams a Mrs Bessie Ellis, y ddau yn analluog i fod yn bresennol. Y Parchg Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon, oedd y gŵr gwadd a chafwyd sgwrs gartrefol a diddorol ganddo yn olrhain hanes 'blynyddoedd canol' ei fywyd. Mrs Olwen Jones a Mrs Betty Jones oedd yng ngofal y baned a chafwyd gair o ddiolch gan Jenkin

Griffiths. Mae'r trefniadau ar gyfer y cinio Nadolig fel a ganlyn: Rhagfyr 10, yng Ngholeg Llandrillo, ac wedyn amser yn y pawns yn Llandudno. Enwau i Mrs Bessie Ellis neu Mrs Mary Griffiths, os gwelwch yn dda.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol nos Fercher, Tachwedd 13, dan lywyddiaeth Deilwen Hughes. Croesawyd aelod newydd, sef Nan Jones, Bron Meillion, sydd wedi dod i fyw i'r pentref yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Edwina a Gwynfor Morris ar ddathlu eu Priodas Arian ac i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr eisteddfod leol ac i rai o aelodau'r gangen am eu

rhan arbennig hwy yn yr eisteddfod. Y wraig wadd oedd Mrs Glenda Jones, Rhostryfan, a oedd yn arddangos ei dawn gydag Eisin Siwgr, a chafwyd noson gartrefol yn ei chwmni a diolchwyd iddi gan Gwyneth Jones. Roedd dwy raffl y tro hwn — un wedi'i rhoi gan Mrs Jones a enillwyd gan Eirlys Williams a Margaret Williams. Y gwest-wragedd oedd Elen Ellis, Rhian Hughes ac Alys Jones. Y cyfarfod nesaf fydd cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, ar 11 Rhagfyr. Bws yn cychwyn o Penrhos am 7.15 o'r gloch yn brydlon.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Llongyfarchiadau i Dave ac An Catrin ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Mae An yn ferch i Mr a Mrs F. T. Foulkes ac yn ymgartrefu yn Haulfryn tra'n dilyn cwrs addysg bellach yn y Brifysgol ym Mangor.

Gwasanaeth Diolchgarwch: Nos Sul, Tachwedd 3ydd cynhaliwyd yr oedfa flynyddol o ddiolchgarwch yng Nghapel M.C. Brynrefail pryd y daeth cynulleidfya gryno ynghyd. Trefnwyd y gwasanaeth a llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Lowri P. Roberts Williams. Cymerwyd rhan gan Mr R. W. Evans, Ty'n Buarth; Mrs Dilys Jones, Cytir; Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog; Mrs Mair Davies, Glanaber; Plant yr Ysgol Sul; Mrs Betty Owen, Tros yr Afon; Mr R. J. Williams, Tyddyn Badin; Mrs Verna Jones, Meillionen; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc; Teulu'r Rhandir; a Mr Norman Williams, Godre'r Coed.

Cymdeithas y Chwirydd: Dan nawdd y Gymdeithas yn ddiweddar,

trefnwyd Casgliad Blynnyddol Cymdeithas y Beiblau. Casglwyd y swm o £61.50. Trefnwyd hefyd eleni, fel y llynedd, i gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Operation Christmas Child' a dylai'n blychau fod mewn llaw erbyn Tachwedd 28ain. Diolchwn i Mrs J. A. Roberts am drefnu'r cyfryw ymdrechion ac i bawb am eu cefnogaeth.

Dymuniadau gorau i Mrs Dilys Jones, Cytir, sydd yn derbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y byddwch yn derbyn adferiad buan a dychwelyd adref yn ddiymdroi.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd trefn yr oedfaon fel a ganlyn am fis Rhagfyr:

1. Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (5.30)
8. Parchg S. O. Hughes, Bethel (10)
15. Mr J. O. Hughes, Bethesda (5.30)
22. GWASANAETH NADOLIG (2)
29. Parchg G. Tudwal Jones, Bangor (5.30)

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: (01286)
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



**Cerrig
Beddau**

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

CHWILOTA MORWYR BRO PERIS



Nid yn aml y cysylltir trigolion y fro hon â'r môr, er fod rhai o chwarelwyr Dinorwig yn y gorffennol wedi buddsoddi mewn cwmnïau llongau, a bod rhai ohonynt yn berchnogion ar y cyd ar longau cargo'n teithio arfordiroedd gogledd Cymru. Daeth y cysylltiadau morwrol i'm sylw y mis diwethaf wedi i mi dderbyn llythyr gan gyfrannwr selog i'r golofn hon, Elwyn Jones, Dunstable (Llanrug gynt). Anfonodd i mi gerdyn marwnad ei daid, morwr o Lanrug, a gollodd ei fywyd ar un o'r mân longau rheini a deithiai o borthladd i borthladd ar hyd traethau gogledd-orllewinol Prydain ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf.

Aelod o griw y Tolfaen oedd Hugh Jones, Bryn Bedw, Llanrug, ac fe'i boddwyd, ynghyd â phedwar aelod arall o'r criw ar ddechrau Hydref 1888. Meddai Elwyn Jones: 'Llong hwylio bedwar mast o Gaernarfon oedd y Tolfaen, a Chymry oedd y criw i gyd. Fe foddwyd pump o'r criw, gan gynnwys fy nhaid, mewn storm enbyd ger Pen y Gogarth ar fore Gwener, y pumed o Hydref.'

Penderfynais chwilo tipyn i hanes y drasiedi, a deuthum o hyd i hanes yr achlysur mewn copi o'r Herald Cymraeg. Cwmni o'r enw Kneeshaw and Lupton oedd perchnogion y llong, ond nid oes gwybodaeth ar gael yn nodi ym mha borthladd y'i cofrestrwyd (nid yw wedi ei henwi yn y rhestrau ar gyfer Caernarfon). Ar nos Iau, 4 Hydref, hwyliodd y llong allan o Lerpwl gyda llwyth o yd, am Newry. Doedd yr yd ddim mewn sachau, ond yn rhydd yn yr howld. Ar ôl pasio'r Rhyl, torrodd yn storm anferth, a chawodydd enbyd o eira'n cael eu hyrddio dros y môr. Yn ôl adroddiadau diweddarach gan y Capten Robert Owen (o Stryd Thomas, Caernarfon) roedd tonnau anferth yn torri dros y llong. Erbyn brwydro i leoliad o ryw ddeng milltir i'r gogledd-orllewin o Ben y Gogarth, gwaethygodd y tywyd, a chafodd y llong ei tharo gan foryn. Symudodd y llwyth yd nes i'r llong droi ar ei hochr. Gan fod y criw yn credu fod y llong yn suddo, aeth pump ohonynt i'r cwch a gollwng eu hunain i'r môr. Dim ond y capten a'r

taniwr arhosodd ar y llong. Hyrddiwyd y ddau ohonynt i du ôl y llong, ac erbyn iddynt ymbalfalu'n ôl i'r dec, doedd dim golwg o'r cwch bach na'r pump aelod o'r criw. Medrodd y ddau ddal gafael yn y llong nes i'r storm dawelu rhywfaint.

Bad achub Llanddulas aeth allan i roi cymorth iddynt ond erbyn hynny roedd yn rhy hwyr i achub y pump a lansiodd y cwch. Aeth rhai o aelodau'r bad achub ar fwrdd y Tolfaen a chynorthwyo'r capten i'w llywio i geg afon Menai. Dath rhai o longwyr Bangor i'w helpu yno, a chafwyd hanes y drasiedi.

Y rhai a gollodd eu bywydau oedd William Jones, mêt y Tolfaen, o'r Felinheli; John Williams, Henwalia, Caernarfon; Richard Jones, peiriannwr o Lerpwl; Richard Edwards o'r Felinheli; a Hugh Jones o Lanrug.

Yn dilyn y drychineb, deallwyd fod bad achub Llanddulas wedi cymryd pedair awr i gyrraedd y Tolfaen. Y rheswm am hynny oedd fod y bad achub wedi gorfod cael ei lusgo gan geffylau o Landdulas i Fae Colwyn er mwyn ei lansio! Pebai bad achub Llandudno wedi derbyn y neges byddent wedi cyrraedd mewn tri chwarter awr — ac roedd posibl felly, y gallai'r criw fod wedi'u hachub.

Gadawyd Margaret Jones, Bryn Bedw, yn weddw ifanc 38 oed, gyda saith o blant i'w cynnal. Wyth niwrnod wedi'r drychineb, ganwyd ei hwythfed plentyn. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Elwyn Jones sy'n adrodd beth ddigwyddodd i'r teulu: 'Roedd gan fy nain, frawd yn Awstralia



o'r enw Richard Williams; un o deulu Afon Rhos. Ar ôl clywed am golled y teulu o Fryn Bedw, anfonodd arian iddynt. Gyda'r arian prynodd fy nain dŷ yn Plastirion Terrace ar y Sgwâr, ac agor siop ironmonger, gan gynnig llestri, papur papuro, paent a paraffin ar werth hefyd. Byddai'n teithio i Gaernarfon ddwywaith bob Sadwrn i gario stoc i'r siop. Arhosodd yn y siop hon am dair blynedd ac yna symudodd eto i Gwydryn ar Ffordd yr Orsaf, bel bu'n cadw siop arall yng nghefn y tŷ. Yno y bu hyd ei marwolaeth yn 1915.'

Mae'n ddiddorol nodi mai'r diweddar John Evans, Cloeciwr, oedd yr olaf i gadw siop a gweithdy yn Gwydryn — ond mai yn ffyrnt y tŷ roedd o, ac nid yn y cefn.

Mae'r ddau englyn a gyfansoddwyd i'w gosod ar gerdyn marwnad Hugh Jones yn werth eu dyfynnu. R. Owen yw'r awdur, ond does gen i ddim gwybodaeth sicr ynglŷn â phwy oedd. Mae'n bosib mai Richard Owen, Tyddyn Mawr, Llanrug, ydoedd — bardd lleol ac englynwr.

Er hwyli gain ar y weilgi — yn ddiogel
Am ddegau o flwyddi;
Och! mor chwerw i mi —
Alaeth yw bedd mewn heli.

O fedd môr 'e fydd i mi — ar ganiad
Yr udgorn gyfodi;
O'r dyfnder mawr, llawr y lli,
Glaniaf ar dir goleuni.

Y TORRWYR GWALLT CERDDOROL

Bûm yn crybwyll cymdeithasau cerddorol y fro mewn rhifynnau blaenorol, ac apeliais am wybodaeth ynglŷn â gŵr o'r enw Ifan Efraïd o Nant Peris. Mae'n ymddangos iddo fod ar un cyfnod yn hyfforddi neu'n arwain y 'Llanberis String Band' yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf.

Ei enw iawn oedd G. Evan Jones.

Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnod arall ynglŷn â'r Llanberis String Band — y tro hwn dan arweinydd gwahanol, sef Lewis Owen. Fe'i disgrifir fel 'athro' y Band, a thorwr gwallt (hairdresser) wrth ei alwedigaeth. Yn yr un cyswllt ceir cyfeiriad at ei fab, Johnny Trevor Owen a oedd yn chwaraewr ffidil tan gamp. Yn y cofnodion mae'n cael ei ddisgrifio fel y 'bachgen-gerddor'. Deuthum hefyd ar draws cyfeiriad at ferch o'r enw Alice Ann Owen a fyddai'n perfformio mewn cyngherddau lleol ar y 'violin'. Tybed oedd hon yn wraig neu'n ferch i Lewis Owen? Ym mhob cyfeiriad disgrifir Johnny yn chwarae'r ffidil, ond Alice yn chwarae'r 'violin'. Beth oedd y gwahaniaeth tybed?

Tua'r un cyfnod gwelais gyfeiriad at ŵr o'r enw Hugh William Evans o Flaen y Ddôl, Llanberis yn dysgu bachgen-gerddor arall o'r enw William Samuel Rowlands o Bentre Castell.

Byddai'n ddiddorol cael gwybodaeth am y teuluoedd hyn o ardal Llanberis. Cysylltwch â mi os ydych yn ddisgynyddion iddynt neu'n gwybod rhywbeth o'u hanes.

Tra'n sôn am gerddorion ardal Llanberis, gwell crybwyll cerddor arall o ardal Llanrug. Anfonwyd y llun gan Elwyn Jones, Dunstable. Mae'n cyfaddef nad oes ganddo fawr o wybodaeth am y rhai sydd yn y llun, ond mae'n credu mai Côr Meibion Harri Bach, Capel Nazareth ydyw, neu Gôr y Delyn Aur fel roeddent yn cael eu galw. Mae tad Elwyn Jones yn y rhes ôl, yn bedwerydd o'r dde. Oes rhywun o'r darllenwyr yn medru cadarnhau mai Côr y Delyn Aur sydd yn y llun? A yw'n bosib rhoi enw i weddill yr aelodau?



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/Ffacs: (01286) 672619

Richard S. Humphreys

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang

o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

HYSBYSEBU AR GÂN

Anfonodd Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, Penisarwaun, hysbysebion ar ffurf penillion i mi. O ardal y Bala y daw'r rhan fwyaf ohonynt, ond gallai rhai gael eu defnyddio yn unrhyw ran o Gymru gan nad oes gyfeiriad pendant at leoliad arbennig. Dyma enghraifft ar ffurf englyn o hysbyseb ar gyfer caffï:

Gadewch y pot a'r diota — yfwch
Hufen ddail yr India;
Tair cwpanaid o de da
Yn gynnes a'ch digona.

Cofnodwyd yr hysbyseb yn 1889 ar gyfer Manchester House, Y Bala, ond gallai ffitio unrhyw gaffi sy'n cynnig paned heddiw.

Faint o fusnesau Cymru heddiw sy'n hysbysebu ar ffurf pennill neu englyn. Gwn fod englynion a phenillion yn cael eu cynnwys mewn hysbysebion ar raglen Eisteddfod Mynytho, ond beth am ardal yr Eco? Gwn fod Cyngar (R. E. Jones — y dilledydd, nid y prifathro) o Lanberis yn hysbysebu ar fydr ac odl. Mae 'drama fydryddol' ar ffurf hysbyseb i'w siop yn Llanberis ar gael. Ond a wyddoch chi am rai eraill? Anfonwch eich enghreifftiau i'r Eco.

Bydd rhifyn Nadolig o'r Eco allan o fewn llai na phytthefnos i gyhoeddi'r rhifyn hwn — fawr o amser i chi ddarllenwyr ymateb i unrhyw sylwadau yn yr erthygl hon. Ond os oes gennych sylw, cysylltwch ar y ffôn, ac fe geisïaf eu cynnwys cyn y 'dolg. Bydd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig, lluniau neu ymholiadau yn cael eu cynnwys felly, yn rhifyn diwedd Ionawr. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Croeso: Estynnir croeso cynnes i Megan, Siôn a Carwyn, gan drigolion Bryntirion. Gobeithio y byddant yr un mor hapus yn 13 Bryntirion ag yr oeddynt yn 9 Bryn Eglwys.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Jean Jones a'r teulu, Bryntirion, ar golli nai ifanc, 13 oed, mewn damwain car yn Derby.

Urdd Bentref: Ymaelododd 30 ar y noson agoriadol. Diolchir i Erin a Cenin am alw yn y noson Bingo. Tachwedd 19 cafwys cwis difyr ac addysgiadol gan Huw Tegid a Sioned Wyn (Perthi). Diolchir yn ddiffuant iawn iddynt. Nos Fawrth, Tachwedd 21, cynhelir chwaraeon hefo Mark Porter a Siôn Bedwyr. Rhagfyr 3 edrychir ymlaen at wneud gwaith llaw Nadoligaidd hefo Mis Jên Jones. Croesewir pawb yn gynnes iawn i noson o ganu Carolau ar y cyd â'r ysgol ar Ragfyr 12. I ddiweddur tymor hwn cynhelir disgo a pharti Nadolig yn y Neuadd Gymuned ar Ragfyr 19. Dymunir Nadolig llawen i'r holl aelodau a phawb yn y pentref.

Cinio'r Penisiynwyr: Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd neu a gefnogodd y noson goffi ar Dachwedd 21 tuag at arlwyio cinio Nadolig i'r pensiywyr a gynhelir yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar Ragfyr 14. Pob hwyl ar y dathlu.

Ysgol Sul Bosra: Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant ddydd Sul, Rhagfyr 22. Gwneir casgliad at achos da. Rhagyr 23 trefnir parti Nadolig ar y cyd ag Ysgol Sul Eglwys y Santes Helen, yn Neuadd yr Eglwys, o 3.00 hyd 5.00 o'r gloch. Oherwydd eu ffyddlondeb bydd Sant y Plant yn siŵr o alw. Diolchir am unrhyw gyfraniadau at y parti. Y mae'r plant eisoes wedi casglu £66.50 tuag at y Genhadaeth Dramor. Braf iwan eu gweld yn meddwl am eraill, yn enwedig ar adeg 'derbyn a rhoddi' fel cyfnod y Nadolig.

Pwyllgor y Neuadd: Cynhaliwyd noson o Hwyl a Sbrî Calangaeaf, nos lau, Hydref 31, ac roedd y beirniaid, John a Gwawr Morris, Brynrefail, wedi rhyfeddu at yr ymateb. Cafwyd sioe ardderchog o Jac Lantern, ysgubau, mygydau, swynion, gwisgoedd, teisennau Draciwla a phryf cop. Diolchir a llongyferchir yr ymgeiswyr oll. Ein diolch hefyd i

John a Gwawr Morris am eu beirniadu teg a'u geiriau caredig. Diolchir i'r rhai fu'n paratoi y baned a'r rhai fu'n brysus wrth y bwrdd Tombola. Tynnwyd Clwb Cant mis Hydref a'r enillwyr oedd: 1, Shirley Jones, Camelot; 2, Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr; 3, Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys. Bydd criw o garolwyr yn dod o amgylch y pentref cyn y Nadolig.

Gŵyl Gerdd Dant: Bu'r Wyl yn un gofiadwy ac mae'r trefnwyr oll i'w llongyfarch am gystadlaethau o'r safon uchaf. Bu nifer o'r pentref yn gefnogol iawn i'r Wyl gyda rhai yn aelodau o Gôr Alawon Menai, Lleisiau'r Gweunydd, Parti Clychau'r Grug a Dawnsyr Caernarfon. Bu parti o'r Ysgol Gymuned yn cystadlu hefyd ar y gân werin. Bu'n bleser bod yn rhan o'r cystadlu.

Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i Bedwyr ar achlysur ei ddywedd i Bethan o Fodorgan. Pob dymuniad da i Dylan Price Williams yn ei swydd newydd; graddiodd Dylan gyda anrhydedd mewn Cyfrifiadured ym Mhrifysgol Lerpwl. Dymuniad da i Ken Richardson yn ei swydd yntau, graddiodd Ken gydag anrhydedd mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth eleni. Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar ennill gradd M.Phil ym Mhrifysgol Aberystwyth a phob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd gyda S4C.

Nadolig Llawn: Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni holl staff yr ysgol cyn i ni dorri am wyliau'r hanner tymor. Plant Bl. 6 oedd yn arwain y gwasanaeth a chawsom fenthgyl lluniau tad Luke a Llŷr Hughes yn dilyn ei ymweliad â dwyrain Ewrop i geisio gwella amgylchiadau plant amddifad. Roedd y lluniau yn drawiadol, ac fe ddaeth y neges drosodd yn glir pa mor ffodus yr ydym yma.

Gan fod Bl. 6 yn astudio bywyd Anne Frank fel rhan o'u thema presennol, cawsom wahoddiad yn ddiweddar i gymryd rhan yn rhaglen Uned 5 drwy drafod y thema,

artefactau o'r cyfnod, gan gynnwys copi o ddyddiadur Anne Frank, ac i ddisgrifio rhai o'r lluniau sydd i'w cael yn yr arddangosfa. Bu'n brofiad diddorol a gwerth chweil, ac ymfalchiwn yn y ffaith fod y rhaglen wedi ei darlledu i gyd-fynd â chyhoeddi'r dyddiadur yn yr iaith Gymraeg, ac ein bod yn rhan o'r digwyddiad hanesyddol hwn.

Cymerodd parti o gantorion ran yng nghystadleuaeth alawon gwerin fel rhan o'r Wyl Gerdd Dant yn ddiweddar. Er na fu'r parti'n fuddugol roedd cymryd rhan yn bwysicach nag ennill. Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i'r rhieni a'u cefnogodd trwy baratoi gwisgoedd ar gyfer y parti a gwnio enw'r ysgol ar eu crysau-polo.

Daeth Mrs Evans — neu Anti Evans fel mae'r plant yn ei galw — draw i sgwrsio efo Bl. 4 a 5 am ei phlentyndod, cyn dyfodiad trydan i'r cylch, fel rhan o'u thema am Ynni. Bu'n bleser croesawu Anti Evans i'r ysgol unwaith eto ac fe gafodd y plant, a'r athrawon, bnawn difyr iawn yn ei chwmni. Diolch yn fawr iawn Mrs Evans.

Ar gyfer y Nadolig cynhelir noson o garolau, ar y cyd â'r Urdd, yn y Neuadd Gymunedol, nos lau, 12 Rhagfyr, am 6.30 o'r gloch. Mr John Eifion Jones fydd yn arwain y noson a phris tocyn yw £1, a 50c i blant dros 11 oed. Gan fod nifer y tocynnau yn cael eu cyfyngu i 150 awgrymaf nad ydych yn oedi cyn archebu eich tocyn sydd i'w cael naill ai drwy'r ysgol neu swyddogion yr Urdd. Arian gyda'r archeb, os gwelwch yn dda, ac fe fydd elw'r noson tuag at achosion da y cylch. Dewch yn llw.

DRAENOG



Oes na wir yn y sôn y bydd rhaid i un o Gynghorau Cymuned y fro brynu trowsus newydd i'w Glerc? Roedd y Clerc wrth ei waith yn postio llythyr trwy ddrws un o'r Cynghorwyr pan aeth car trwy bwl mawr o ddŵr yn y ffordd y tu ôl iddo... roedd o mor wlyb nes bu'n rhaid iddo fynd i dŷ ei ferch i sychu'r trowsus!

DRAENOG



Briadd yn hwyr ydw i efo'r stori hon — ond mae hynny'n addas iawn. Un o gefnogwyr tîm pêl-droed Llanberis yn cyrraedd y cae ar bnawn Sadwrn a'r gêm — yn ei dyb ef — newydd ddechrau. Doedd o ddim yn credu ei bod hi bron yn hanner amser a Llanberis ar y blaen o 3 gôl i 0. Sôn am fod yn hwyr! Mae'n beryg y byddai ambell un yn dweud ei fod wedi arfer bod yn hwyr ar gae pêl-droed. Tybed nad tacl hwyr a barodd i un o gefnogwyr tref Dinbych ers talwm weiddi arno, 'Cymer bwyll y gwddiaw ddiawl!'

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go iawn ★

Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll
oddi wrth Tim, Jackie a phawb yng

NGORSAF BETROL



BERAN



DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo • Cylchgronnau
Papurau Newydd • Cardiau Penblwydd
Wyau • Nwyddau Groser • Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

AR AGOR
Llun-Gwener 8.30am-10pm
Sdawn 9am-10pm
Sul 10am-9pm

SIOP
SPAR

Stryd Newydd
DEINIOLEN
Ffôn: 870171



Diolch am bob cefnogaeth
drwy gydol y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
Edgar a'r holl staff

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

BILL, LIZ a FIONA
SWYDDFA'R
POST


DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870283
GROSER TRWYDDEDIG



ASIAN LOTERI CENEDLAETHOL

★ Tacsï
★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni
y Nadolig hwn

Ffôn: (01286) 871049 :: (0831) 429970 (symudol)
neu ffoniwch ni AM DDIM ar
National Cabline (Freephone) 0800 123 444
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

SWYDDFA POST A SIOP
CLWT Y BONT

Ffôn: 870325

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
JAVED A SHAHEEN HAQ




CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMU NIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD

oddi wrth
GWYN OLIVER JONES


Bar
Swper
Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048



OSMOND W.
SHAW DEINIOLEN



GWASANAETHAU
TELEDU

Ffôn; Llanberis 870545

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Chris ac Angela
a'r staff

WELLINGTON
INN

Deiniolen

Ffôn (01286) 870227



CWRW BLASUS
CHWERW AR EI ORAU



Dymuna DAFYDD
GWENLLI A STAFF

Y TARW
BULL INN
DEINIOLEN

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd, Deiniolen
Llanberis 870484
★ Bysus o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a
Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr
DEINIOLEN

Ffôn: 872112

● Ar agor bob diwrnod
o'r wythnos
● Prisiau arbennig i
bensynwyr



'Un funud fach . . .'

CANOL A CHOES

Fues i ddim yn chwarae criced ers blynyddoedd. Ddim ers dyddiau ysgol, ar wahân i un gêm yn y coleg. Bryd hynny, os cofiaf yn iawn, roeddwn yn fwy o beryg i iechyd batwyr nag i'w wiced fel bowliwr. A doeddwn i fawr o fatiwr. Fedra i ddim cofio i mi beri rhyw lawer o drafferth i'r bobl hynny fyddai'n cadw'r sgôr.

Tybed fyddwn i wedi bod yn well batiwr taswn i wedi gosod marc i mi fy hun cyn dechrau batio? Mae pob batiwr gwerth ei halen yn gwneud hynny. Bydd yn marcio'r llawr â'i fat cyn dechrau batio, ac wedyn yn gosod ei fat ar y marc hwnnw wrth wynebu pob pêl fydd yn cael ei bowlio ato. Y marc sy'n sicrhau ei fod yn sefyll yn y lle iawn er mwyn ceisio rhwystro'r bêl rhag taro'r wiced. Mae'n gosod ei farc, ac yn glynu wrth y marc hwnnw. Bydd y batiwr yn gosod ei farc yn aml er mwyn gallu cuddio dwy o dair ffon y wiced — y 'ganol a'r goes'. (Os na wyddoch ddim am griced rwy'n ofni y bydd raid i'r frawddeg ddiwethaf yna aros yn ddirlgelwch llwyr i chi!)

Yma y Safafyw teitl un llyfr sy'n adrodd hanes y diwygiwr Martin Luther. Luther ei hun ddywedodd y geiriau i egluro ei fod yn credu rhai pethau pendant am Dduw a'r Efengyl. Roedd yn gosod ei farc, ac yn cyhoeddi nad oedd am symud oddi wrth yr argyhoeddiadau mawr oedd ganddo ynglŷn â'r Arglwydd Iesu a'r ffordd drwyddo at Dduw. Beth bynnag oedd barn neb arall, beth bynnag a wnâi neb iddo am gredu a chyhoeddi'r gwirioneddau a ganfu yn y Beibl, nid oedd symud arno. Ac er bod pedair canrif ers dyddiau Luther mae'r Efengyl y safodd ef drosti mor wir ag erioed. Iesu Grist yw'r unig ffordd at Dduw o hyd. Yma y safaf.

Mae'r Nadolig yn nesáu, a chawn glywed eto yr hen hanes am y Geni ym Methlehem. A dyna gyfle i ninnau osod marc a phenderfynu glynu wrth rai gwirioneddau o'r newydd. Gosod marc a rhyfeddu bod Duw wedi anfon ei Fab i'n byd. Gosod marc a diolch bod y Mab hwnnw yn dal i gynnig Bywyd i'r byd. Gosod marc a llawenhau o gael derbyn bendithion yr Efengyl. Gosod marc a phenderfynu bod yn well disgyblion i'r Iesu. Gosod marc a mynnu dweud yn amlach wrth bobl eraill amdano. A pheidio gadael i ddim ein tynnu oddi wrth y marc hwn. JOHN PRITCHARD

PLAID CYMRU

FFAIR NADOLIG

YN Y GANOLFAN, DEINIOLEN
NOS WENER, 6 RHAGFYR
am 7 o'r gloch

Mynediad 40c (plant 15)
BYDD SIÔN CORN YN YMWELD

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Y Ganolfan Gymdeithasol: Ers ei sefydlu ym mis Tachwedd 1979, fel rhan o Ysgol Gwaun Gynfi, cynhaliwyd rhwng 350 a 450 o gyfarfodydd yn flynyddol yn y Ganolfan (a'r mwyafrif ohonynt yn ddi-dâl). Dengys y wybodaeth fod lle inni fel pentrefwyr ymfalchïo fod cymaint o weithgareddau yn cael eu cynnal mor dawel a di-ffwdan yn ein plith.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yn y Caban, am saith o'r gloch, nos Wener, 13 Rhagfyr. Gwahoddir pawb i'r cyfarfod, pryd — ymhlith pethau eraill — yr etholir chwe aelod newydd ar y pwyllgor rheoli am 1997 allan o'r dwsin o enwau a enwebwyd gan y gwahanol fudiadau a fu'n defnyddio'r Ganolfan y llynedd. Cofiwch y dyddiad a mynnwch ddod i gymryd rhan yn y Cyfarfod Blynyddol — trowch i mewn i ddangos diddordeb.

Llongyfarchiadau i Mared Wyn Sutherland, Pen-y-bont, ar ennill gradd M.A. gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Y Seindorf: Llongyfarchwn y Seindorf ar ennill y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth Pontins, Prestatyn, ar Sadwrn, 26 Hydref. Yr oedd yna 13 o fandiau yn y gystadleuaeth a'r safon yn uchel

iawn. Bydd y Seindorf yn cystadlu am Bencampwriaeth Gogledd Cymru yn Llandudno ddiwedd y mis — 30 Tachwedd — a dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Clwb Elidir: Bydd y Clwb yn cynnal eu cinio Nadolig yng Ngwesty Sandringham, Llandudno, 12 Rhagfyr. Cychwynnir am 10.45 a.m. o Ddinorwig.

Yn ystod y tymor cawsom arddangosfa gwau cywain iawn gan Mrs Beti Williams, 85 Pentre Helen, a bydd siwmpwr o'i gwaith yn un o wobrau y Nadolig. Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch wedi'i drefnu gan Mrs Megan Morris gyda'r aelodau yn cymryd rhan. Bu Sally Lewis a Jane Jones yn ddigon eofn i fynd ar daith gerdded nodedig drwy Barc y Faenol. Yn ddiweddar cafwyd noson Bingo a dipyn o hwyl a sgwrs yng ngofal Mrs Pat Evans. Ar 12 Tachwedd daeth Mrs Rhianwen Jones o Gofal Môn i ddangos gwahanol bethau sydd ar gael i helpu'r henoed a chafwyd prawn difyr ac addysgiadol iawn. Ar 26 Tachwedd disgwylir Mr Robin Jones o Gofal Henoed i sôn am ei waith.

Dymuna'r aelodau ddiolch i Mrs Dilys Pritchard a Mrs Hanna Jane Thomas am eu rhoddion i'r clwb.



Cafodd Liam ddigon o hwyl yn y ras ddŵr yn ystod gweithgareddau 'Sbri yr Ysgol Sul' a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar.

Diolchiadau:

Dymuna teulu'r diweddar Owen Hughes, Erw Fair, Deiniolen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolchir yn arbennig i Mrs M. Fleming, Rhydfadog, am ei charedigrwydd dros y blynyddoedd ac i staff Plas Pengwaith, Llanberis.

Dymuna Sion a Leah, 10 Coed Marion, Caernarfon, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Alaw Medi. Dymuna Leah ddiolch hefyd am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniwyd ar dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Dylan a Wendy Roberts, 3 Jiwili Terrace, Y Felinheli, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ffion Mair, ar yr ail o Hydref, chwaer i Gethin Wyn.

Dymuna Hefin a Menna Jones, Crud-yr-awel, Llanrug, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar Dachwedd 6ed. Diolch yn fawr.


Dymuna Mr a Mrs Owie Hughes, 50 Rhydfadog, ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl.

Dymuna J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ar ran teulu y ddiweddar Mrs Katie Williams, Esgynfa, Capel y Graig (Deiniolen gynt), am bob caredigrwydd a amlygwyd iddynt fel teulu yn ystod gwaeledd Katie. Diolch hefyd am y llu cardiau, galwadau ffôn, ac am y rhoddion er cof tuag at dapiau i'r deillion.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yn Ebeneser. Miss Enid Pierce Roberts, Bangor, oedd y wraig wadd a chafwyd ganddi ddarlith hynod ddiddorol ac addysgiadol ar hanes y seintiau cynnar yng Nghymru.

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru mis Tachwedd — £10: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel; £5: Mr Gwyn Parri, Cynefin.

DRAENOG



Fe wyddoch oll am Eifion,
Eifion a'i JCB,
A chlywais innau ganmol
I hwn, a dyma fi
Yn rhoddi job i'r gorau i gyd
I glirio tir yng nghefn Glanrhyd.

Ond nid oedd lle i'r peiriant
(Ei fraich oedd braidd yn fer),
'Dim problem!' meddai Eifion,
'A phaid a phoeni, Ger,
Âf adre i nôl fy Mobcat i
Mi wna y gwaith yn siŵr i ti.'

Ac felly bu, a dyma
Ddechrau ar glirio'r lle,
Y Bobcat wrthi'n ddiwyd
Ac Eifion yn ei ne'
Yn gwenu'n braf rhwng smôc a
smôc
Gan deimlo iddo wneuthur strôc!

Gadewais innau'r gyrrwr,
Es at fy ngwaith fy hun,
Roedd gennyf rheitiach pethau
I'w gwneud na gwyllo dyn
Yn eistedd yno'n wyn ei fyd
Gan symud nôl a 'mlaen o hyd!

Ond, ow! ces alwad sydyn
'Tyrd, Eifion sydd mewn cawl
Mae wedi troi y Bobcat
Nis gwn sut gwnaeth y diawl.'
A rhuthrais innau'n ôl drachefn
I weld y peiriant ar ei gefn.

Y traciau'n dal i symud
Ac Eifion ynddo fo
Yn ymbil ar i rywun
Ddod heibio i'w achub o.
Daeth Siôn a Gareth o'r Lôn Wen
Gan feddwl bod y byd ar ben!

A rhwng y tri ohonom,
Bachwyd y JCB
Â rhaff wrth gab y Bobcat
A'i godi, coeliwch fi.
Anodd y dasg, cymerodd awr
Ac Eifion druan a'i ben i lawr.

Y wers yw hyn — fe ddylai
Eifion a'i JCB
A'i Bobcat, wir yr, ffrindiau,
Arddangos platiau 'D'.
Gwell fyth a fyddai iddo boys
Chwarae yn awr â dinky toys!

CYFARCHION NADOLIG O
GWM Y GLO

OAK AM BETROL, DEISEL **OAK**
OLEW AC AMRYFAL
ANRHEGION MODURO

**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE**

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

CWM Y GLO
Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Adref o'r Ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Mrs E. Jones, Seiont House; Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon; a Mr Iorwerth Jones, Min-y-don, ar ôl iddynt dderbyn triniaethau yn yr ysbyty.

Marwolaeth: Yn dawel yn ei gartref, Rhos-y-ffin, ar 15 Tachwedd, yn 74 mlwydd oed, bu farw Mr William Cecil Chick. Bu'r angladd ddydd Mercher, 20 Tachwedd, gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn gwasanaethu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Mrs Gwyneth Chick, ei fab John a'i briod Pat, William ei ŵyr bach, a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Yr Ysgol Feithrin: Ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd, ymgasglodd plant yr Ysgol Feithrin gyda'u beiciau i fynd o amgylch y buarth yr ysgol am hanner awr. Gwaith caled iawn i'r rhai bach, ond cafwyd hwyl a sbri. Drwy'r ymgyrch yma fe gasglwyd swm arbennig o dda at gronfa'r Ysgol Feithrin. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor barod i noddî'r plant.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, Tachwedd 4. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Darllenwyd cofnodion pwyllgor y llynedd a phasiwyd eu bod yn gywir. Cafwyd

Nadolig Llawn oddi wrth Bryn a Kathleen

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am **BRISIAU
CYSTADLEUOL**

BRYN
(B & K Williams)

**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **831344** i drefnu amser

**CEIR
CWM**

CWM Y GLO Ffôn: 871234

Ar agor 7 diwrnod yr wythnos tan 5.30 p.m.
★ Dan reolaeth newydd ★
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i bawb

Dymuna
**HOWARD ac ELAINE
MIDDLETON**
a staff

**Y FRICSAN
CWM-Y-GLO**
Ffôn: (01286) 870289

**THE SNOWDON
INN**

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Croeso i'n Nadolig cyntaf yn y dafarn.

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

adroddiad gan Mrs Latham am y cyfarfodydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd, Mrs Joyce Ransom. Ailetholwyd y swyddogion am flwyddyn arall. Cynhelir gwasanaeth o garolau nos Lun, Rhagfyr 9. Croeso cynnes i bawb o Hafan Elan. Cyflwynwyd tystysgrifau gan Mrs Sandra Hughes i'r aelodau sydd wedi cyflawni dros 25 o flynyddoedd o wasnaeth i'r mudiad. Y wraig wadd oedd Mrs Pam Castle, Moelfre, ac yr oedd wedi paratoi cwis diddorol. Gofalwyd am y baned gan Mrs E. Taylor a Mrs L. Jones. Talwyd y diolchiadau an Mrs Dorothy Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Taylor ac fe'i henillwyd gan Mrs Barlow.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Carem ddiolch o galon i'r rhieni, pentrefwyr a ffrindiau am eu cefnogaeth i'r Ffair Gaeaf a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd. Er garwed y twydd roedd yr ysgol yn orlawn a gwnaed elw anrhydeddus iawn o dros £400 a fydd yn cael ei rannu rhwng yr Ysgol a'r Ysgol Feithrin. Unwaith eto, dyma arwydd o gymdogaeth arbennig yn ymgynnull er budd plant yr ardal.

Nid plant Cwm yn unig sy'n derbyn o haelioni'r pentrefwyr y mis hwn. Casglwyd bocsys esgidiau yn llawn o anrhegion ar gyfer plant llai ffodus ardaloedd Armenia a Bosnia. Diolch am ymateb i'r apêl ac i'r Parchg John Pritchard am gludo'r

anrhegion i'r ganolfan yn Wrecsam. Croesawn dri plentyn arall i'r ysgol, sef Ike a Bonnie Roberts o Ysgol Tal-y-sarn, a James Lewis o Gaerfyrddin. Maent wedi setlo'n hapus iawn ym Ml. O, 1 a 2 erbyn hyn.

Y ddau lwcus yng Nghlwb yr Ysgol am fis Hydref oedd Mr Tim Shelley o'r Fach-wen a Mrs Joyce Jones o Gwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

Mae cyfnod prysur iawn o'n blaenau gyda noson agored i'r rhieni ddiwedd Tachwedd. Yna bydd noson o adloniant yng Ngwesty'r Snowdon nos Sadwrn, Rhagfyr 7. Cynhelir Cyngerdd Nadolig yr ysgol bawn a nos Fercher, Rhagfyr 11, a byddwn yn gwerthu tocynnau i'r ddau berfformiad eleni.

Byddwn hefyd yn dod o amgylch y pentref i ganu carolau nos Lun, Rhagfyr 16, gan gychwyn yn Nôlafon ac yn gorffen yn y Fricsan lle bydd cawl poeth yn ein haros. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gweithgareddau hyn sydd wedi'u trefnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Bydd parti Nadolig a disgo i'r plant nos lau, Rhagfyr 19.

Manteisiwn ar y cyfle i ddiolch am eich cefnogaeth yn ein holl weithgareddau yn yr ysgol yn ystod 1996 a charem ddymuno Nadolig llawen iawn i chwi a blwyddyn ddedwydd yn 1997.



Plant Ysgol Cwm-y-glo wedi paratoi a phacio'r bocsys.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Fictoria, nos Wener, Tachwedd 1, estynnwyd croeso gan y llywydd i ddau aelod newydd, sef Geraint Huws Roberts, Bangor, a'r Dr A. Gwyn Williams, Llanberis. Hyderir y tyfir cysylltiad hir a ffrwythlon cydrhyngddynt â'r Clwb. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i longyfarch Dei Tomos ar lwyddiant ei gyfres ddiweddaraf ar y teledu, 'Llwybrau Dei', a mawr obeithir bod mwy o'r cyffelyb eto'n ôl. Cyn cloi ei ragarweiniad cyfeiriodd y llywydd at brofedigaeth gwraig ein is-lywydd a gollodd ei chwaer-yng-nghyfraith, Mrs Joan Griffith, Llanrug, yn ddiweddar. Siaradwr y noson oedd Rol

Williams, Waunfawr, ac wrth ei gyflwyno cafwyd sylwadau pwrpasol ar ei yrfa a'i dalentau parod gan y cadeirydd, John Emlyn Hughes, Deiniolen. Dangoswyd inni fideo ardderchog ar hanes a dirywiad ardal Gwaun Cwm Brwynog gan Rol, gyda'r troseirio meistrolgar yn dwysau'r ymwybyddiaeth o'r cyfoeth a'r cyfared a gollwyd. Traddodwyd y diolchiadau gan Eurwyn Jones, a chlowyd y cyfarfod gan y llywydd trwy gyhoeddi bod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Rhagfyr 6, gyda Arwel Jones, Penisarwaun, yn siaradwr, a Selyf Hughes, Llanberis yn y gadair.

IOLO HUWS-ROBERTS

Llythyrau

**Pwy oedd
William Arthur Evans
Nant Peris?**

Annwyl Ddarllenwyr,

Tra bûm yn Ffrainc eleni yn nathliadau pedwar ugain mlynedd ers Brwydr y Somme fe euthum i Fynwent y Gymanwlad, Delville Wood, Longueval. Mae'r fynwent yn cynnwys 5,517 o feddau — 3,590 ohonynt yn ddi-enw.

Tra'n cerdded drwy'r rhesi o gerrig coffa gwyn fe sylwais ar eiriau Cymraeg ar un ohonynt: 'Huned Mewn Hedd, ei Fam a'i Frawd'. Bedd ydyw i '40432 / Private W. A. Evans / Royal Welch Fusiliers / 3.9.16 / 24 oed'.

Euthum i edrych ar gofrestr y fynwent ac yno canfûm y wybodaeth ganlynol: ei enw llawn oedd William Arthur Evans, ac yn aelod o 'A Company, R.W.F.'. Roedd yn fab i Mrs Catherine Jane Evans a'r diweddar Thomas J. Evans, Cromlechdy, Nant Peris.

Tybed a oes yna rywun sy'n gwybod mwy o hanes y gwron hwn? A oes ganddo berthnasau sy'n dal yn fyw? Byddaf ond yn rhy ddiolchgar o gael unrhyw wybodaeth pellach.

Diolch o galon am eich amser a'ch diddordeb.

Yn gywir,

DEI JENKINS

Pant, Llangrannog, Llandysul,
Ceredigion SA44 6AG

Croeso i alw heibio . . .

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf atoch i ddweud bod gan MIND le i alw heibio yn adeilad yr Institiwt yng Nghaernarfon bob nos Lun rhwng 7 a 9 o'r gloch.

Mae'r ddau wirfoddolwyr sy'n gofalu am y gwaith yno yn ddwyieithog. Byddant yn falch o estyn croeso i unrhyw un sy'n galw heibio am de neu goffi, neu am sgwrs a gêm o gardiau.

Rhoi cymorth a gwybodaeth i bobl sy'n dioddef afiechyd meddwl wna MIND. Ychydig sy'n sylweddoli bod o leiaf un person o bob pedwar ar ryw adeg yn cael problemau afiechyd meddwl fel iselder, unigrwydd, pryder, sgitsoffrenia neu ffobiau.

Diolch ichi am roi sylw i'n gwaith.

Yr eiddoch yn gywir,

DAWN McHALE

MIND, 9 Lôn Abaty, Bangor
(01248) 354888

Cerrig Coffa Nant Peris

Annwyl Olygydd,

A fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, a rhoi cyhoeddusrwydd yn *Eco'r Wyddfa* i arysgrifau cerrig coffa y ddwy fynwent yn St. Peris, Nant Peris.

Rwyf wedi bod yn eu cofnodi ers rhai blynyddoedd bellach ar ran Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. I rywun sydd â diddordeb ceir manylion pellach gan **Ms Yvonne Edwards, 36 Y Wern, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4TX. Ffôn: (01248) 670267.**

Gyda mawr ddiolch.

Yn gywir iawn,

STANLEY WRIGLEY
Porthaethwy, Môn.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Priodas: Llongyfarchiadau i Nia Jones, Glanrafon Bach ar ei phriodas â Garry Taylor, Chwillog, yng Nghapel y Pentref, 12 Hydref. Bydd Nia a Garry yn ymgartrefu yn y Ffôr. Dymuniadau gorau iddynt.

Tynfa Fisol: Enillwyr mis Tachwedd oedd — £40: John ac Annwen Pritchard, Glangors Newydd (38); £25: Geraint a Rita Owen, 17 Tai Glangwna (45); £15: Ellen Burke, Arosfa, Caeathro Bach (24); £5: Beti Roberts, Monfa (23).

Cynhelir cyfarfod arbennig o'r pwyllgor 2 Rhagfyr a chynhelir y cyfarfod misol ar 16 Rhagfyr.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu hyd ddiwedd y flwyddyn:

- 1: Gweinidog (2)
- 8: Gweinidog (2)
- 15: Parchg Gareth Maelor (2)
- 22: Cyfarfod Nadolig (5.30)
- 29: Dim oedfa.

Bendithion y tymor i bawb a chroeso cynnes iawn i Wasanaeth y Nadolig. **Digwyddiadau'r Nadolig:** Yn ogystal â'r wledd Gristnogol bydd y digwyddiadau canlynol: bore Sadwrn, 14 Rhagfyr, bydd y goeden Nadolig yn cael ei chodi a'i goleuo; nos Sadwrn, 14 Rhagfyr cynhelir parti Nadolig yr oedolion yng Ngwesty Tywysog Cymru, Caernarfon. Gwerthir tocynnau am

£9.25 yr un gan aelodau'r pwyllgor Cae Chwarae. Bydd Siôn Corn yn ymweld â phlant ieuengaf y pentref (oedran ysgol cynradd neu iau) ar nos Lun, 23 Rhagfyr am 5 o'r gloch yng Nghlwb Glangwna.

Croeso: Tom a Marian Evans (gynt o Garej Minffordd, Bethel) yw trigolion newydd Plas Treflan. Croeso i Gaeathro ac fel aelodau o'r Dynfa Fisol.

Pobl y Traeth: Os oes unrhyw un yn gwybod am rhai o gyn-breswylwyr Caeathro sy'n byw heddiw yng Nghaliffornia (Unol Daleithiau America — nid Ynys Môn!) byddai Clive James yn falch iawn o dderbyn gwybodaeth pellach.

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646**



BRYSIWCH!

Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch CYW IÂR
a CHIGOEDD
ERAILL
RŴAN



oddi wrth

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

**Ffôn:
Caernarfon 673574**

**PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI**

JYST JASON

Y mae newyddiadurwr a fu'n byw
ym Mhenisarwaun newydd gyhoeddi
ei gasgliad cyntaf o straeon.

Yn wir, ym Mhenisarwaun y
cafodd rhai o'r straeon yn y gyfrol
Jyst Jason eu sgrifennu gan GLYN
EVANS, sydd yn awr yn olygydd
Y Cymro.

Y mae nhw eisoes wedi eu canmol
gan feirniaid yn yr Eisteddfod
Genedlaethol. 'Mae crefft ac arddull
y storiwr yn ardderchog ac ambell
stori amhrisiadwy yma,' meddai Prys
Morgan wrth feirniadu cystadleuaeth
y Fedal Ryddiaith yn 1991.

Ac meddai'r nofelydd John
Rowlands, 'Mae yma fwrwm o
hiwmor, gyda mwy na chyffyrddiad
o'r abswrdd ar adegau.'

Dywedodd Meg Elis, hithau iddi
ganfod '... perlau geiriol ei storïau
yn bowndian i'm meddwl yn
ddigymell.'

Symudodd Glyn i fyw yn Y Waun,
Penisarwaun pan gafodd ei benodi'n
olygydd cynorthwyol papurau'r
Herald yn 1966 ac ar y pryd ef oedd
yn gyfrifol am yr *Herald Cymraeg* a'r
Caernarfon and Denbigh. Bu hefyd yn
gyfieithydd gyda Chyngor
Bwrdeistref Arfon ac yn ohebydd Y
Cymro yng Ngwynedd. Ar un adeg
roedd yn un o lywodraethwyr Ysgol
Tan-y-coed, Penisarwaun.

Hwn yw ei ail lyfr. Ef yw awdur
cyfrol sy'n sôn am y gyfres deledu,
Minafon. Yn gyfrol gryno y mae *Jyst
Jason* yn cynnwys hanner dwsin o
straeon yn cael eu cysylltu a'i gilydd
gyda stori arall sydd yn rhedeg
drwyddynt.



**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

**Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol**

**Cerrig o bob
math ar gael**

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

ADOLYGIAD:

Hogyn o Sling John Ogwen

(Cyfres y Cewri 16)
Gwasg Gwynedd (Pris £6.95)


John Ogwen ei hun ydi awdur cyfrol
ddiweddaraaf Cyfres y Cewri ac mae
wedi llwyddo i gyflwyno hanes ei fywyd
mewn ffordd ddifur a doniol-ddwys.
Wrth ddarllen, gellir ei glywed â chlust
y dychymyg, yn siarad efo ni. Mae ei
yrfa hyd yn hyn wedi dangos ei fod yn
gyfathrebwr wrth reddf, ond mae'r llyfr
hwn yn profi hynny. Bydd rhai o'r
storïau a geir ganddo yn fyw yn y cof
am amser hir iawn. Bydd y gyfrol yn
apelio at rychwant eang o bobl o bob
chwaeth ac o bob oed.

Cawn ddarllen hanes ei fagwraeth a'i
ddatblygiad fel actor, dramodydd a
sgriptiwr yn ogystal â hanes datblygiad
byd y theatr a'r teledu yng Nghymru.
Bydd yn rhaid i chi brynu'r llyfr i gael
gwybod mwy.

Mae'r gyfrol yn adlewyrchu
diddordeb John Ogwen mewn pobol.
Ceir portreadau o gymeriadau sy'n
dangos dawn yr awdur i sylwi a chofio
am bethau a glywodd.

Mae yna storïau lle roeddwn yn
chwerthin yn uchel wrth eu darllen, er
enghraifft, stori'r trip ysgol i Langollen
a stori ffilmio'r rhaglenni 'Miri Mawr'.
Sonnir am bwysigrwydd ffwtbol yn ei
fywyd.

Mae'r llyfr yn dangos ei fod yn ddyn
â daliadau cadarn. Nid yw'n pregethu
wrthym — dim ond dweud yr hanes.



**Hogyn o Sling
John Ogwen**

— Cyfres y Cewri 16 —

Mae Cymru a'r Gymraeg yn hynod o
bwysig iddo gan beri iddo wrthod
gwaith mewn 'porfeydd brasach' er
mwyn cael perfformio yn y Gymraeg.
Ceir hanesion a theyrned i bobl sydd
wedi dylanwadu ar sefydliadau cened-
laethol oedd â chysylltiadau â'r ardal
hon, fel Gwenlyn Parry, Wilbert Lloyd
Roberts a Dafydd Orwig.

Mae i Gwm-y-glo le pwysig yn y
gyfrol gan mai o'r pentref y daeth
Maureen Lloyd Jones, neu Maureen
Rhys fel yr adwaenir hi gan bawb, ac
mae'n cyfeirio yn y llyfr at aelodau o'i
theulu.


Wrth sôn am berfformio addasiad o
'Un Nos Ola Leuad', Caradog
Prichard, dywed yr awdur fod y nofel
yn: '... gymysgedd ... o chwerthin a
chrio. Mae'r llon a'r lleddf yn gwbl
anwahanadwy.'

Mae'r un peth yn wir am y
bywgraffiad hwn. Dyma anrheg
Nadolig gwerth chweil i unrhyw un.

YN EICH SIOP LEOL YN AWR

**TRIGAIN
CROESAIR**

Len Jones



Difyrrwch... dryswch... dysg...

Mae dds go dda o bob un yn y trigain croesair
hyn. Fe'u seiliwyd ar groeseiriau a
ymddangosodd dros gyfnod o wyth mlynedd
yn *Lleu*, papur bro Dyffryn Nantlle. Roedd
enillydd y mis yn derbyn £5. Chewch chi ddim
ond yr her a'r hwyl.

Ac fe gewch yr atebion wrth droi i'r cefn yn
hytrach nag aros am fis.

Dim ond £3.50!

GWASG DWYFOR



Faint ohonoch, wrth ymbalfalu am yr
atebion i groesair *Eco'r Wyddfa*, sy'n
gwybod mai Dafydd Ifans o
Benisarwaun a'u creodd?

Trwy gyd-ddigwyddiad, cyn
brifathro'r pentref, Len Jones, yw
awdur **TRIGAIN CROESAIR**, a
gyhoeddwyd am £3.50 gan Wasg
Dwyfor, jest mewn pryd ar gyfer y
Nadolig.

Seiliwyd y llyfr ar groeseiriau a
ymddangosodd dros gyfnod o wyth
mlynedd yn *Lleu*, papur bro Dyffryn
Nantlle. 'Does dim raid ichi fod yn
arbenigwr i gael blas ar y llyfr. Ceir
cliwiau rhesymol o hawdd, ond eto'n
ddigon gogleisiol i hagi'r ymennydd.

Yn wahanol i *Lleu* ac *Eco'r Wyddfa*,
mae'r atebion ar gael ar unwaith yn
y cefn os aiff pethau'n flêr!

Yn nhymor Ewyllys Da gwell
rhannu croeseiriau, mae'n siŵr, na
geiriau croes! R.J.R.

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981 / 675807

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA




**Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill**

**Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833**

CALENDR ADFENT ECO'R WYDDFA

Torrwch y dudalen a'i gludio ar ddarn o gardfwrdd yna lliwiwch un darn o'r llun bob dydd o Ragfyr 1af hyd Noswyl Nadolig



Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am Fwffe Enwog Nerys
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH DANNY, NERYS A'R STAFF

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS



LLANBERIS

Ffôn 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer
priodasau, dathliadau bedydd, pen-
blwydd a phob achlysur arbennig arall
Bwydlen Bar a Restaurant

Cinio Dydd Sul

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Lin, John a phawb o'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Y LLE DELFRYDOL
I BRYNU ANRHEG
NADOLIG I'CH
ANIFEILIAID ANWES

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth Jill, Peter a James

GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840



BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED,
CARDIAU NADOLIG AC
ANRHEGION CAIN

YN SIOP

GWYNETH AC EIFION
ROBERTS

CACENNAU NADOLIG
A BARA BRITH
TRADDODIADOL

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDI WRTH

BECWS ERYRI
STRYD FAWR
LLANBERIS 870491

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y cyfarfod misol yn Festri Eglwys Sant Padarn bnawn dydd Mawrth, Tachwedd 5ed dan lywyddiaeth Mrs Dilys Phillips. Y Parchg Emyr Owen oedd yn darllen rhan o'r Ysgrhythur. Y gŵr gwadd oedd y Parchg Gwynfor Williams, a ddangosodd sleidiau o Oberamagau. Yr oedd ei sylwebaeth yn wych a mwynhawyd y pnawn yn fawr iawn. Dewiswyd Mrs Betty Hughes i osod y dorch ar y Gofeb. Diolchodd y Parchg Emyr Owen i'r gŵr gwadd. Roedd y banded dan ofal Mrs Clara Roberts a Mrs Dilys Phillips. Enillydd y raffl oedd Mrs Betty Williams.

Yr Urdd: Cafwyd ymateb da i'r apêl a roddwyd yn yr Eco ddeufis yn ôl am rai i arwain Adran Bentref yr Urdd. O fewn wythnos i'r apêl roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer y tymor newydd. Arweinyddion newydd yr Adran yw Ffion Jones ac Amanda Welsby. Nia Jones yw'r Trysorydd a Gwenfair Wakeham yw'r Ysgrifennydd. Mae Jackie Sellers, Jane Jones a Siôn Jones yn cynorthwyo hefyd. Diolch iddynt am ymgymryd â'r gwaith a sicrhau parhad yr Adran. Cynhelir cyfarfodydd yr Adran bob nos Fercher yn yr Ysgol, gyda chyfarfodydd ar gyfer y plant iau a'r plant hyn ar yn ail â'i gilydd. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fercher, Tachwedd 20, bu'r plant hyn yn gwneud cardiau Nadolig.

Nofio: Bu wyth o blant yr Adran yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym Mangor bnawn Sadwrn, Tachwedd 23. Phillip Foulkes, Mathew Lloyd Roberts, Mathew Pike a Gethin Pritchard oedd tîm y bechgyn; Ceri Jones, Ailsa Orlik, Sara Owen a Nia Wakeham oedd tîm y genethod. Roedd Mathew Pike yn drydydd yn y ras froga a'r ras rydd a Gethin yn drydydd yn y ras gefn. Enillodd y genethod ddwy ras gyfnewid (y rhydd a'r gymysg) a byddant yn cynrychioli Eryri yn y Gala Cenedlaethol yn Llanelli ar 14 Rhagfyr. Bydd Ceri ac Ailsa hefyd yn cystadlu mewn rasmus unigol yn Llanelli, gan

mai Ceri enillodd y ras pili-pala a'r ras gymysg ac Ailsa enillodd y ras rydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd a dymuniadau gorau i'r genethod yn Llanelli.

Ysgol Dolbadarn: Daeth llond y neuadd o rieni a chyfeillion i'r Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhaliwyd yn yr Ysgol ddydd Gwener, Hydref 18. Roedd pob un o'r plant yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Gwnaed casgliad o £81 tuag at Apêl Tŷ Enfys. Mae 16 o fyfyrwyr wedi bod yn yr Ysgol yn gweithio gyda phlant blwyddyn 5 a 6 yn ddiweddar. Daeth y Parchg John Pritchard i sôn am fedydd wrth blant dosbarth Mrs Jones a Mrs Brookes, fel rhan o waith thema'r plant. Cafodd holl blant yr Ysgol weld sioe bypedau addysg iechyd; a mwynhaodd dosbarth Mr Parry eu hymweliad a Chanolfan Celtica ym Machynlleth ddechrau Tachwedd. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y rhieni a'r llywodraethwyr nos Lun, Tachwedd 25, a Ffair Lyfrau ddeuddydd wedyn. Cyn diwedd y tymor bydd dosbarth Mrs Pierce a Mrs Roberts yn cael trip i Lanystumdwy ac mae pawb yn edrych ymlaen at gael mynd i weld y Pantomeim 'Robin Croeso' yn Theatr Gwynedd ar Ragfyr 19.

Y Gymdeithas Undebol: Mr Ralph



Mae dwy o Lanberis ymysg ugain o athrawon a darlithwyr a fu'n dysgu Cymraeg yng Ngholeg Menai. Cyflwynwyd tystysgrifau iddynt mewn cyfarfod gwobrwyo arbennig ym Mhlas Menai. Mae'r ddwy ohonynt yn y llun hwn a dynwyd yn y cyfarfod, Stephanie Meadows (yn y canol), a Kate Thoms (ar y dde). Llongyfarchiadau iddynt.

Jones oedd y gŵr gwadd yn y Gymdeithas Lenyddol a gynhaliwyd yng Nghapel Coch nos Fawrth, Tachwedd 5ed.

Sul yr Urdd: Cynhaliwyd gwasanaeth Sul yr Urdd yn Capel Coch ar Dachwedd 17. Aelodau'r Urdd o Ysgolion Brynrefail ac Aelwyd Bethel oedd yn arwain y gwasanaeth ar thema gwaith UNICEF.

Capel Coch: Cynhelir y Cyfarfod Plant fel arfer ddydd Mawrth, Rhagfyr 3 a Rhagfyr 10, ac yna bydd seibiant tan ar ôl y Nadolig. Byddwn yn aildechrau ddydd Mawrth, Ionawr 7. Cynhelir gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 22. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Diolchiadau:

Dymuna Gari Davies, 9 Maes Derlwyn, ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau oll am y cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch i bawb.

Dymuna Llifon Wyn Owen, 9 Stryd y Wyddfa, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

ER COF am ben-blwydd Mam a Nain annwyl ar 22 Rhagfyr, Annie

Blodwen Jones, Y Dreflan, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

*Pwy all byth anghofio
Y cariad roddest ti?
Rhagfyr unwaith eto,
Cofiw'n dy ddiwrnod di.*

Wil, Heddwyn, Lynnwen ac Idwal, Llinos Angharad a Carwyn John. **ER COF** am Bob Hughes, gynt o 7 Stryd Siarlot, fu farw Rhagfyr 1af, 1995.

*Hir yw galar i gilio — ac araf
Yw hen gur i fendio,
Am un annwyl mae'r wylo'n
Ddafnau cudd o fwn y co'.*
Oddi wrth y plant a'u teuluoedd.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Bedydd: Bedyddiwyd Kate, merch Dafydd a Heddwen Pritchard, Y Fron, yn yr oedfa brynhawn Sul, Tachwedd 10, yng Nghapel Rehoboth, gan y Gweinidog, y Parchg John Pritchard.

Croeso: Estynnwn groeso cynnes i'r Nant i Mr a Mrs John Roberts sydd wedi symud i fyw i Glanrafon.

**CARTREF PLAS PENGWAITH
FFAIR NADOLIG
NOS WENER, 29 TACHWEDD
am 6 o'r gloch
MYNEDIAD 50c
YN CYNNWYS PANED A MINS PEI**

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL
NOSON O GAROLAU
yng nghwmni
CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS
yn FESTRI CAPEL COCH
NOS LUN, 2 RHAGFYR
am 7 o'r gloch**

DRAENOG



Yn ddiweddar bu ond y dim i gêm bêl-droed ar gae Llanberis gael ei gohirio oherwydd llifogydd . . . a phrinder dŵr. Ond nid ar y tywydd yr oedd y bai. Llifodd gALWYNI o ddŵr i'r cae wedi i rywun dorri peipen mewn tŷ newydd cyfagos. Ac fel petai hynny ddim yn ddigon fod y creadur bron â boddi'r chwaraewyr roedd o wedi torri'r cyflenwad dŵr i'r ystafelloedd newid hefyd. Chafodd neb banded o de gynnes ar hanner amser a byddai'r hogia wedi gorfod mynd adra heb 'molchi oni bai bod gweithwyr y Bwrdd Dŵr wedi cyrraedd mewn pryd i drwsio'r peipiau!

Colofn y Dysgwyr

dan ofal SARAH ROBERTS
Bryn Eryri, 7 Stryd Warden
Llanberis (01286) 871531

Atgof am Nadolig yn Llanberis

Yn Caledfryn roedd Anti Blod yn smwddio ar y bwrdd, ac roedd Yncl Tom a fi yn gwneud addurniadau. Roedd tân glo yn y grât, y dresel yn sgleinio a Blod bach yn siarad — roedd ganddi stori fach o'r pentre bob amser — a minnau'n hanner gwranddo. Roedd gynnon ni frigyn o goeden gelyn i'w rhoi ar fachyn yn y to — to pren wedi ei beintio'n wyn — ac aeron coch del a dail gwyrdd. A Tomos a fi'n meddwl sut i roi'r addurniadau papur a tinsel ar y wal uwchben y drych. Siâp calon oedd y glas o bren efo silffoedd bach. Roedd Yncl Tom yn cadw ei bensiliau mewn pot ar un silff ac ar y lleill ornaments: pot du, dyn a cheffyl, ac ychydig o ddarnau pres.

Mi es i y tu ôl i Blod a sefyll ar y gadair, heb esgidiau, a dyma Tom yn ymestyn i fyny. Dyma ddamwain ofnadwy yn digwydd — do — syrthiodd pob dim i lawr . . . crash! . . . y drych, a'r ornaments i gyd ar lawr wedi torri, ac Anti Blod yn gweiddi, 'O! Tom bach, be wyt ti'n neud, cariad?'

Na, doedd y drych ddim wedi torri — roeddwn i wedi neidio i'w ddal. Noson bleserus yn dod i ben wedyn — clirio'r smwddio, clirio'r ornament oedd wedi torri, a Tom yn dweud, 'Sori, sori Blod bach,' a minnau'n gorfod mynd i'r gwely'n sydyn.

(Y flwyddyn nesaf gobeithio y cawn ddod at ein gilydd i sgorsio, ac wedyn fe gawn fwy o'ch atgofion i'w cyhoeddi yn yr Eco.—Sarah Roberts.)



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon a enillodd wobrau am farnu biff ac ŵyn yn y Rali yn Ysbyty Ifan.

GLEN'S FOOTWEAR



Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb



Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Garvin, Wil a Jim

W.G. ALLSUP
Storfa Gig Glan Padarn



LLANBERIS 870319


Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth

PAUL JONES
a phawb yn
SIOP SGLODION
SNOWDON
VALLEY
LLANBERIS



Galwch heibio am
bryd blasus




SNOWDON KITCHENS

57 STRYD FAWR
LLANBERIS

(01286) 870555/870443

CEGINAU, TEILS SERAMIG
ANRHEGION



'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn costio DIM MWY na cheginau'r siopau mawr DIY, ond cymharwch ansawdd ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:

- Ceginau cadarn da mewn derw, castanwydden (chestnut) a phîn
- Dewis eang o lamineiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnaws
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwyr lleol yn ymfalchio yn eu gwaith
- Prisiau rhesymol ar gyfer gosod a dodrefnu
- Llythyrau canmol a chwsmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisiau gonest

HEFYD: GWASANAETH NEWID DRYSAU
A 'WORKTOPS'

AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIWCH PETER ROOKE AM BRISIAU A
GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL



**FFARM FÊL
YR WYDDFA**



STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: 870218

Dewch i drïo glasiad o'r medd a'r mêl
yn yr wythnos cyn y Nadolig

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda.



Mêl

Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Michal a Brigid
Moran a'r plant

**Sea Fresh
Chip Shop**

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
- ★ Cwrw Felin Foel



Royal



Victoria Hotel

wrth droed yr Wyddfa

EI HEGLU HI I'R HOWGILLS

Nos Sadwrn ym mis Hydref, a'r bws mini yn dyrnu mynd i fyny'r M6. Un o deithiau Clwb Rhedwyr Eryri i gaeraru'r gelyn: mynyddoedd gogledd Lloegr a chystadleuaeth flynyddol Pencampwriaeth Prydain a drefnir gan Gymdeithas y Rhedwyr Mynydd. Eleni, tref farchnad fechan Sedbergh yn Cumbria oedd yn gwahodd y rhedwyr i ymgodymu â llethrau a dyffrynoedd bryniau'r Howgills.

Gadael y draffordd ar gyffordd 34 a dilyn yr A683 hyd gyrion gogleddol Fforest Bowland. Cyrraedd Ingleton tua naw o'r gloch y nos, a'r deuddeg teithiwr yn ysu am bryd o fwyd. Methu â chael siop sgldion ar agor yn y pentref, ac er holi, doedd neb yn fodlon cydnabod eu bod yn byw yno! Mentro i dafarn gan obeithio cael bar-bryd — ond wrth gerdded i mewn, sgwrs pawb yn tewi, a chael ein cyfarch â distawrwydd llethol. Y tafarnwr yn datgan nad oedd bwyd ar gael, ond yn ein cyfeirio i dafarn arall dros yr afon, ar ochr draw'r dyffryn. Lle od! Dilyn y cyfarwyddiadau a chael ein hunain yn gyrrun hynod ofalus ar hyd lôn gul iawn. Cyrraedd mynwent, ac yna eglwys, ac o'r diwedd, tafarn — a honno'n llawn o bobl ifanc yn chwarae cardiau, dominos, pwl a dartiau. Ond fe gawsom fwyd; ac fe gafodd rhai benbleth dewis o'r gwahanol fathau o gwrw oedd ar werth yn y tŷ-rhydd hynod hwn — gan gynnwys y cwrw enwog hwnnw heb enw!

Cychwyn tua'n llety, a dringo eto; y tro hwn mewn niwl trwchus a smwc o law mân. Gwyllo am arwyddion Dent — yno roedd ein hostel ieuencid a'n noddfa am y noson. Pasio tafarn arall yn Chapel-le-Dale yn uchel ar y rhostir, a chriw o fotobeicwyr yn gylch o gwmpas tân mawr allan yn yr awyr agored, ac yn wlyb at eu crwyn. Lle odiach!

O'r diwedd cyrraedd y tro am Dent, gyda rhybudd am bont gul. A fyddai'r bws mini yn rhy lydan? O fewn hanner canllath, dacw'r bont o'n blaenau. Pont rheilffordd yn croesi blaenau'r dyffryn. Sylweddoli ein bod ger llinell rheilffordd enwog Settle-Carlisle a adeiladwyd ganol y ganrif ddiweddar ar gost o dair miliwn a hanner o bunnau. Mynd dan y bont yn ddi-drafferth: doedd hi ddim mor gul â hynny wedi'r cwbl. Disgyn yn raddol i Dentdale a chwilio am unrhyw arwydd o'r

hostel. Cyrraedd Cowgill — rhyw ddwy fferm ar ochr y ffordd — ond dim sôn am hostel. Ymlaen i'r niwl ar ffordd gul a throellog, ac yna sgrechiadau brêcs a'r bws yn stopio'n stond. Dyma'r bont gull! Gorfod sythu ac ail-sythu'r bws i'w chroesi. Roedd ei bwa'n uchel a chul, a'r bont ei hun yn sgwâr hollol i rediad y ffordd. Gwasgu drosti a phenderfynu cael golwg arall ar y map. Sylweddoli ein bod wedi pasio'r hostel rywsut, a gorfod ail herio culni'r bont cyn dechrau dringo'n ôl i flaen y dyffryn. Cyrraedd Cowgill eto a sylwi ar oleuni yn uchel i'r dde o'r ffordd. Golau lamp y bws yn digwydd taro ar driongl YHA wedi ei hoelio ar goeden ar ochr y ffordd. Dyma hostel Dent. Brysio i mewn cyn un ar ddeg ac archebu brecwast. Cyfle sydyn i ffonio adref i ddweud ein bod yn ddiogel(!) ac yna i'r gwely. Storm o wynt a glaw yn hyrddio'n erbyn y ffenestri drwy'r nos, a sŵn yr afon yn fyddarol. Distewi erbyn y bore fel roedd pawb yn dechrau cael gafael ar gws. Brecwast bendigedig, a'r bws ar gychwyn cyn hanner awr wedi wyth.

Dilyn yr afon fyrlymus o liw mawn i lawr y dyffryn a chroesi'r bont gul am y drydedd tro. Yr awyr yn clirio a llygedyn o oleuni yn taro trwy'r cymylau yma ac acw. O fewn rhai milltiroedd cyrraedd Dent — un stryd o gobl, ac eglwys rhy fawr i bentref mor fychan. Ychydig filltiroedd eto a dacw'r arwydd o groeso i Sedbergh a Bryniau Howgills. Parcio ym marchnad anifeiliaid y dref a pharatoi am ddiwrnod hir a blinedig.

Gan fod y gyfres rasmus yn dechrau am ddeg, roedd yn ofynnol i ddau ohonom newid yn y bws, a gobeithio fod y drydedd, a gweddill ein timau, wedi cyrraedd ar eu liwt eu hunain. Cerdded tua Neuadd y Dref — tebycach i neuadd bentref fechan. Yno roedd yr holl dimau'n cofrestru; naw deg a thri ohonynt, a'r mwyafrif llethol yn dimau o ogledd Lloegr. Eryri oedd unig gynrychiolwyr Cymru (tri thim —

dynion, dynion hŷn a merched). Roedd nifer fechan o dimau o'r Alban yno, ac un o Ogledd Iwerddon. Roedd chwe aelod i bob tim: dyna bron i chwe chant o redwyr wedi ymgynnull gyda'i gilydd!

Rhennir y Bencampwriaeth flynyddol hol yn bedwar cymal — dwy ras sengl a dwy ras i barau, gyda chyfanswm amser rhedeg y pedwar cymal yn cael ei amcangyfrif tua phedair awr a hanner i'r tim cyflymaf. Simon Forster (pencampwr Cymru), Menna Angharad (pencampwraig Cymru ac ail ym Mhencampwriaeth Prydain) a finna' oedd i redeg y cymal cyntaf dros dri thim Eryri. Chwe milltir a hanner o ras a phedwar copa i'w dringo. Yr amcangyfrif i'r rhedwr cyflymaf oedd 50 munud. Oherwydd y tywydd, gorfodwyd pob rhedwr i gario dillad ychwanegol addas rhag oerni, map, cwrpawd, pib a bwyd. Doedd yr amgylchiadau ddim yn argoeli'n dda!

Am ddeg o'r gloch taniwyd y gwn a tharanodd naw deg a thri o redwyr allan o dref Sedbergh gan ddilyn y ffordd tua phentref Howgill. Roedd timau Carnethy o'r Alban yn amlwg iawn — yn gwisgo cilt, tam o'shanter, wig coch, cyrllog ac yn cario cleddyf! Roedd eu hwynebau hefyd wedi eu lliwio'n las; yn union fel y gwyliaid yn y ffilm 'Braveheart'. Rywle ar hyd y lôn cawsant wared â phopeth ond y lliw glas! Tro sydyn i'r dde a thrwy fuarth fferm, ac o fewn lled dau gae, roedd pawb ar y ffridd agored ac yn cychwyn dringo. Heibio i odre Winder (a gwybod fod angen cyrraedd copa hwn cyn diwedd y ras) a chroesi nifer o ddyffrynoedd bychan (y 'gills'). Roedd y tir yn wlyb a lithrig, a nifer o'r rhedwyr yn sgelfrio i lawr y llethrau serth i mewn i'r 'gills'. Roedd y goreuon erbyn hyn yn ymestyn y gweddill yn un llinell hir o redwyr. Cyrraedd y man cofnodi cyntaf, a gofalu fod cerdyn pob rhedwr yn cael ei dyllu. Yna, dringfa galed i gopa Swang Head. Oddi yno, cael cip draw i'r gorllewin ar fynyddoedd Ardal y Llynnoedd, a sylwi hefyd fod niwl trwchus a glaw yn symud yn fygythiol tuag atom.

Dilyn y gyfuchlin uwchben Middle Tongue ac anelu am Arant Haw, yr ail gopa (a chofnodi eto). Erbyn hyn roedd y glaw wedi cyrraedd, a'r niwl yn prysur ddilyn. Croesi bwlch a dringo eto i gopa Sickers Fell (a chofnodi). Disgyn yn gyflym i ddyffryn creigiog Ashbeck Gill a chroesi criw hynod o lithrig yn yr afon. Dringo at lwybr troed eithaf llydan a arweiniai'n ôl i gopa Winder. Diolch amdano: roedd y niwl wedi cyrraedd erbyn hyn. Stryffaglio i gopa Winder a chofnodi am y tro olaf. Dilyn y baneri i lawr y llethr, ac wrth ddod allan o'r niwl, gweld cae pêl-droed Sedbergh a'r llinell derfyn islaw. Ond sôn am dod i lawr! Y sgidia rhedeg yn methu gafael, a'r sgelfr hir, boenus yn dechrau. Diolch nad oedd cerrig arni, ond roedd bochau tin wedi eu 'sgythru gan fonion rhedyn crin! Cyrraedd y giât a arweiniai o'r ffridd a chroesi dau gae mwdlyd.

Cyrraedd y ffordd ac ar draws i'r cae pêl-droed i gyffwrdd aelod nesaf y tim a wynebai ras o bedair milltir mewn niwl a glaw.

Diflannu am y bws mini i newid, ac iro'r pen-ôl poenus — rhywbeth y byddai pob rhedwr yn ei wneud cyn diwedd y diwrnod! Gwaethygu wnaeth yr amgylchiadau weddill y diwrnod, a'r glaw'n arllwys i lawr. Erbyn diwedd y pnawn roedd hyd yn oed y sgelfr i lawr Winder wedi diflannu i'r niwl. Roedd y gallu i ddilyn map a cwrpawd yn hanfodol i'r parau, a fu allan ar y mynyddoedd am dros deirawr!

Erbyn dau o'r gloch y pnawn roedd parau olaf nifer o'r timau eisoes wedi cychwyn ar y cymal olaf o naw milltir. I'r gweddill, a oedd yn parhau i ddisgwyl parau eu trydydd cymal yn ôl, cawsant gychwyn gyda'i gilydd am ddau o'r gloch. Roedd gobaith felly i'r mwyafrif o'r parau gyrraedd yn ôl i'r diwedd tua hanner awr wedi pedwar. Byddai amser eu trydydd parau yn cael ei ychwanegu at y cyfanswm amser ar ddiwedd y ras. Y cymysgwch hwn a achosodd i dim merched Eryri gredu eu bod wedi ennill gwobr — fe ddaethant yn ôl yn drydydd yn eu categori, a chyhoeddwyd eu bod yn ail yn y ras i gyd. Yn anffodus, roedd eu pedwerydd pâr wedi gorfod cychwyn y cymal olaf cyn i'r trydydd pâr gyrraedd yn ôl, ac wedi ychwanegu'r amser at y cyfanswm, roedd eu safle terfynol yn bedwerydd.

Roedd tim y dynion wedi cychwynyn addawol — yn chweched am gyfnod, ond diweddu yn safle 28ain ar ddiwedd y dydd. Cadwodd tim y dynion hŷn i'r un safle bron gydol y ras, gan ddiweddu'n 54, a'r merched yn 63.

Y flwyddyn nesaf mae sôn fod Eryri am anfon pedwar tim — gan gynnwys tim o redwyr dros hanner cant oed. Bydd y gystadleuaeth honno'n cael ei chynnal ar fynyddoedd y Pennine yn rhywle, a chlwb Clayton le Moors fydd yn gyfrifol am y trefniadau. Does ond gobeithio y bydd y tywydd yn fwy ffafriol a'r llethrau'n fwy caredig i'r pen-ôl!

DRAENOG



'An Englishman's home is his castle,' meddan nhw. Ond doedd CASTELL un Cymro bach tua Llanddeiniolen fawr o gartref iddo yn ddiweddar. Gwyllo'r teledu roedd o un gyda'r nos pan ddaeth ymwelydd i lawr y simdde. Dipyn o siom oedd deall nad Siôn Corn oedd wedi galw heibio'n gynnar. Wiwer lwyd go fentrus oedd wedi disgyn trwy'r simdde. Dychrynodd gŵr y tŷ gan ruthro allan drwy'r drws a gadael y wiwer i redeg yma ac acw rown y stafell ffyrnt. Ond doedd y wiwer fawr o dro yn setlo. Pan edrychodd y gŵr drwy'r ffenest dyna lle'r oedd y wiwer yn eistedd yn ddel ar declyn 'remote control' y teledu nes bod y teledu'n troi'n handi o'r naill sianel i'r llall!

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Oherwydd fod y gysgodfan aros bysiau ar Stryd Fawr, Deiniolen yn cael ei fandaleiddio mor aml, ac hefyd am fod y Cyngor wedi derbyn sawl cwyn ynglŷn â'r camddefnydd a wneir o'r adeilad, fe benderfynwyd i'w thynnu i lawr.

Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus am fod amryw yn parhau i barcio eu ceir ar y llinellau melyn ar Stryd Fawr, Deiniolen. Roedd y Cyngor yn anfodlon ynglŷn â'r ffaith nad

oedd dim datblygiad i'w weld ynglŷn â'r addewidion o sawl ffynhonnell i gael astudiaeth gyflawn o ardal Deiniolen er ceisio gwella cyflwr yr ardal yn gyffredinol. Roedd y Cyngor o'r farn y dylid bellach gael amserlen bendant ynglŷn â'r cynlluniau ac y dylid symud ymlaen heb oedi ychwaneg ynglŷn â'r mater.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Ysgol Penisarwaun, nos Fawrth, 7 Ionawr 1997.

CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



W.J. DAVIES
**MODURDY'R
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd

**JOHN WHITE
THE BODY SHOP**
LLANBERIS

★ Trwsio wedi damweiniau

★ Ailsbreio

★ Curo paneli

joe brown
CLIMBING & CAMPING
EQUIPMENT SPECIALIST

Am anrhegion
Nadolig a
werthfawrogi
trwy'r flwyddyn

- ★ Dewis rhagorol o lyfrau ar deithio a mynydda
- ★ Sanau a Siwperi trwchus
- ★ Cotiau a Sgidiau Dal Dŵr
- ★ Dillad Thermal ★ Capiâu a Menig Gwlân

Llanberis, Ffôn 870327

Hefyd yng Nghapel Curig

(tu cefn y post) Ffôn: 01690 720205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

joe brown

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH

PAT A KEN

CREFFTAU FFERM
CAE COCH


STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: 870777

GALWCH I MEWN AM ANRHEGION
NADOLIG ANGHYFFREDIN

Diolch i bawb am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



**SNOWDON
MOUNTAIN RAILWAY**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Ellen a Tecwyn, 11 Cefn Elan, ar enedigaeth mab bach, Rhys Ellis, ar 1 Hydref. Hefyd i Sioned a Melfyn, 21 Rhos Rug, ar enedigaeth merch fach, Caryl Menai, ar 11 Hydref; chwaer fach i Leah Môn ac Wyr a wyres i Hefina a Dick Jones, 8 Rhos Rug. Dymunant ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd gan y teulu a'u ffrindiau. Diolch o galon i bawb.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr Gwilym Griffiths, Clive, Gerald, Nigel a Kenny, a'r teulu oll, yn eu profedigaeth. Bu farw Joan ar ôl gwaelodd hir a mawr fu gofal y teulu amdani. Person tawel oedd Joan ond yn barod iawn ei chymwynas ac wedi gwneud llawer i'r pentref ar hyd y blynyddoedd. Bydd colled fawr i'r teulu a'i holl ffrindiau.

Bu farw Mrs Owen, Hafan Elan (Rhos Rug gynt) yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r plant a'u teuluoedd.

Clwb Ieuenctid Llanrug: Eleni eto mae'r Clwb yn brysur gyda llawer o gystadlau ar hyn o bryd. Bu rhai o'r aelodau yn gwneud noson o Bingo yn Hafan Elan yn ystod wythnos waith ieuenctid. Aesth tiog, a bu criw am ben-wythnos yn Rhyd-ddu yn dringo, cerdded a sgio.

Merched y Wawr: Estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau, a chroeso arbennig i un aelod newydd, sef Carys Williams, gan y Llywydd Mair Huws.

Trist iawn oedd yr aelodau wrth gofio am Joan Griffiths, aelod ffyddlon o'r gangen, a fu farw yn ddiweddar a chydymdeimlwyd yn ddwys â Gwilym Griffiths a'r teulu yn eu profedigaeth. Croesawyd Megan Roberts yn ôl wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Diolchwyd i bawb o'r gangen fu'n helpu gyda pharatoadau'r Wyl Gerdd Dant, a llongyfarchwyd Parti Dawns Caernarfon ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth galed. Mae nifer o'r dawnsywyr yn aelodau o'r gangen.

Gwestai'r mis oedd Delian Williams o Borthaethwy a ddangosodd inni sut i addurno cacenau Nadolig gan gywrain iawn gyda chreffft siwgr. Bydd cartrefi bro'r Eco yn hardd a chwaethus dros

yr Wyl. Diolchwyd i Delian, ac i Meira Jones oedd wedi dod i'w chynorthwyo, gan Menna Williams a fu'n ddigon lwcus i ennill Siôn Corn roedd Delian wedi'i lunio ar y noson. Rhoddwyd y te gan Bethanne, Myfanwy a Phyllis a diolchwyd iddynt gan Beryl Thomas.

Gwestai mis Rhagfyr — nos Fawrth, 10 Rhagfyr — fydd Myrddin ap Dafydd. Bydd pwnsh a mins pei ar gael i ddathlu'r Nadolig.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Eleni eto bu'r plant yn brysur yn paratoi bocsys ar gyfer yr ymgyrch 'Operation Christmas Child'. Pnawn Gwener, 15 Tachwedd, roedd 135 o focsys yn barod i'w casglu gan y Parchg John Pritchard i fynd ar y rhan gyntaf o'r daith hir. Mae rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cadw cysylltiad â phlant o wledydd eraill ers ymgyrch y llynedd. Mae Laura Evans, Bl. 4, yn anfon llythyrau ac anrhegion yn rheolaidd i Marina o Croatia ers dwy flynedd bellach. Ers iddi hysbysebu ar raglen Eifion Jones ar Radio Cymru mae hi wedi llwyddo i gael cyfieithydd fel bod ei ffrind, Marina, yn gallu ysgrifennu ati yn ei hiaith ei hun.

Ar 14 Tachwedd bu disgyblion Bl. 1 a 2 ar daith i Lanberis i ymweld â Gorsaf Bŵer Llanberis fel rhan o'u thema ar 'Goleuni'. Hefyd bu plant Bl. 3 yn ymweld ag Ysbyty'r Bwthyn yng Nghaernarfon i weld yr offer a ddefnyddir gan bobl fyddar.

Ar 14 Tachwedd bu Urien Deiniol a Gareth Roberts, Bl. 6, mewn Arddangosfa Tennis yng Nghanolfan Hamdden Telfor. Cawsant y profiad o gyfarfod â Tim Henman a chwaraewyr amlwg eraill a'u gweld yn chwarae yn erbyn eu gilydd.

Yr Urdd: bu plant yr ysgol yn brysur yn paratoi eu wsgol oedd ffansi ar gyfer y disgo galwgaef. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r noson. Diolch yn fawr hefyd i bawb a ddaeth i'n Noson Guto Ffowc, er iddi fwrw glaw yn drwm iawn cawsom arddangosfa gwerth chweil. Cofiwch i gyd am y Tombola ddiwedd Tachwedd.

Llongyfarchiadau i nofwyr Bl. 5. Bu Dafydd Thomas a Huw Mackinon yn llwyddiannus iawn yng Ngala John Sharp. Cafodd Dafydd ddau drydydd a phedwerydd a Huw un ail a thrydydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Nest Evans

O'R FFAIR GREFFTAU



ar golli ei brawd yng Nghaerdydd.
Diolchiadau:

Dymuna Lily Owen, 4 Cefn Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch i Dr Williams a Dr Helen Jones a staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Hefin a Menna Jones, Crud-yr-awel, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a

dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar 6 Tachwedd. Diolch yn fawr.



EISTEDDFOD MÔN — CAERGYBI '97

YR WYL DDrama

YN NEUADD Y DREF, CAERGYBI
24, 25 a 26 EBRILL 1997

CYSTADLAETHAU PERFFORMIO

(Dyddiad cau — 1, Mawrth 1997)

AGORED: DRAMA UN ACT (Hunan ddewisiad)

Gwobrau: £150, £100 a £75

IEUENCTID: DRAMA FER

Gwobrau: £100, £75 a £50

CWMNIAU O FÔN: DRAMA UN ACT

Gwobrau: Cwpan Audreu Mechell a £150, £100 a £75

CYFANSODDI DRAMA UN ACT
Y GELLIR EI PHERFFORMIO MEWN NEUADD BENTREF
(SYDD HEB EI GWOBROWYO O'R BLAEN)

Gwobr: Tlws y Ddrama a £150

(Dyddiad cau — 1 Chwefror 1997)

Gwahoddir Audrey Mechell i gynhyrchu'r ddrama fuddugol os bydd teilyngdod

Anfoner at: MEIRION LI. WILLIAMS, 5 CAE BRAENAR,
CAERGYBI, YNYS MÔN, LL65 2PN

DRAENOG



Mae pawb yn nabod Wali Tomos ... y llymanwr o Fryn Coch sydd eisiau bod yn reolwr tîm pêl-droed. Ond yn Llanberis mae 'na reolwr sydd eisiau bod yn llymanwr ... neu'n 'ddyfarnwr cynorthwyol' a defnyddio'r term newydd. Be mae peth felly yn 'i neud, meddech chi? Wel, helpu'r dyfarnwr wrth gwrs. Helpu'r dyfarnwr i weld pwy sy'n cam-

sefyll. Helpu'r dyfarnwr i weld os yw'r bêl dros y llinell ymyl. Helpu'r dyfarnwr i gadw trefn ar y chwaraewyr a'r rheolwyr. A helpu'r dyfarnwr i gyfri'r chwaraewyr er mwyn sicrhau bod y nifer cywir ym mhob tîm. Peth od iawn felly bod y gŵr o Lanberis wedi mynd i helynt yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Bu'n rhaid stopio gêm wedi i hogia'r dre sylwi bod gan Llanbêr un chwaraewr yn fwy na nhw! Un ai roedd y rheolwr yn methu cyfri ... a go brin hynny gan ei fod yn brifathro medrus ... neu roedd o'n TWYLLLO ... a fynta'n ddyfarnwr cynorthwyol swyddogol! Be ddeudith y Welsh F.A. neu Gymdeithas y Dyfarnwyr am beth felly tybed?



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

**RAYMOND A'R STAFF
SWYDDFA'R
POST
LLANBERIS
Ffôn: 870201**

Cardiau Nadolig a
Phenblwydd Teganau
Gwasanaeth Ffotogopïo

**Tocynnau'r
Loteri Genedlaethol
ar werth yma**
ar agor ddydd Sadwrn
tan 7 pm
Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol



**Adloniant
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg
efo'r Organ**

**CELF Y
COPÄON
MOUNTAIN ART**

Stryd Fawr
LLANBERIS 870925

Am luniau mynyddoedd
*Peintiadau *Printiadau
*Posterï *Ffotograffau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



**BRIAN A PHAWB
YN SIOP**

SPAR

LLANBERIS

**Dewch atom am eich
holl anghenion bwyd
a diod Nadolig**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

**odyn
copr**

66 Stryd Fawr
Llanberis



Ffôn: 871366

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG



Stryd Fawr
Llanberis 872501



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll oddi wrth



Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn



**DYMUNA
MERVYN, DILYS
a JENNIFER**



**CASTLE
GIFT SHOP**

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets,
Melysion, Llyfrau a llawer mwy

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES
a'r MEIBION



870
902

870
444

ac 872200

MASNACHWYR GLO

I BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN



Dim bysus dydd Mercher / dydd Iau, 25 a 26 Rhagfyr
na dydd Mercher, 1 Ionawr 1997



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Llongyfarchiadau i Eleri Williams, Trigfa, ar ddod yn 'fyfyrwraig y flwyddyn' yng Ngholeg Menai. Bu Eleri yn dilyn cwrs Tystysgrif Ymarfer Personél.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Ffion Edwards, Melin-y-wig, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed; ac i Manon Jones, Tref Eilian, ar gyrraedd ei 21 oed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

Dymuna Ffion, Melin-y-wig, ddolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed.

Dymuna Manon, Stad Tref Eilian, ddolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed.

Newid Swydd: Llongyfarchiadau i Iwan Ellis, Ty'n Llidiart, ar ei benodiad yn ddirprwy-brifathro Ysgol Gynradd Cwmbrân. Bydd yn cychwyn ar ei ddyletswyddau yno y mis Ionawr 1997.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Diane a Gerald Rowland, 8 Dôl Erddi, ar enedigaeth eu mab bychan, William Wyn, wŷr bychan i Dafydd a Lywela Davies, Stad Tref Eilian, ac i Dic a Gwendoline Rowlands, Stad Bryn Golau, a gor-wŷr i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Bro Waun.

Dathlu Priodas Aur: Pob dymuniad da i fodryb ac ewythr annwyl iawn, Evan ac Alice Hughes, 3 Bryn Golau, ar dathlu eu Priodas Aur ar 19 Rhagfyr, oddi wrth Elizabeth a Dei; Eluned, Elwyn a Carwyn; Griff a Lyn. Ategwn ninnau, drigolion y Waun, ein dymuniadau gorau i'ch dau hefyd. Mawr hyderwn fod Mr Hughes yn gwella wedi iddo orfod treulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs S. Jones-Evans, Pennant gynt, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd; ac hefyd i Mrs L. Parry, Teras Eilian. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Pritchard, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ym Mangor; ac hefyd at Mrs Elena Jones, Bryn Meurig, gan fawr obeithio y byddwch yn gwella yn fuan iawn.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cyfarfu'r Gymdeithas nos Lun, 11 Tachwedd, a'r gŵr gwadd oedd y Parchg Harri Parri a chafwyd darlith ddiddorol ganddo am 'Lwgu ym Mhen Llŷn'. Y llywydd oedd Mrs Cadi Jones, a ddiolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mr O. T. Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 9 Rhagfyr, a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Huw Gwynfa Roberts.

Adref o'r Ysbyty: Da deall fod Mrs J. Smith, Rhos-lan; Mrs R. W. Roberts, 9 Bryn Golau; Mrs G. Thomas, 9 Tref Eilian; Miss Eirlys Roberts, 20 Bro Waun; a Mrs Bradshaw, Castle View, wedi gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbyty. Gobeithio y byddwch yn gwella ac yn cryfhau bob dydd.

Priodas: Llongyfarchiadau i Siân Owen, Ty'n y Mynydd, ar ei phriodas â George Gill o Lerpwl. Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu cartref Hafod Wen, Waunfawr.

Cydymdeimlo: Teimlodd pedwar teulu o'r pentref yr ing o golli rhywun annwyl yn ystod y mis diwethaf ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r canlynol yn eu galar a'u hiraeth:

Mrs N. Roberts, 25 Tref Eilian, a'r golli ei merch, Mrs Joan Griffith o Lanrug; Mrs G. Jones, 10 Tref Eilian,



Aelodau tîm dan 9 oed Waunfawr yn gwisgo dillad newydd a roddwyd gan gwmni carpedi Geraint Owen.

yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer; Mr Emyr Evans, Arfryn, ar golli ei chwaer; Mr Owain Orwig, Preswylfa, ar golli ei dad Mr Dafydd Orwig, Bethesda.

Diolch: Dymuna Mrs Nellie Roberts,

25 Tref Eilian, ddolch o galon i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a'r genod gofal cartref, am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar ôl marwolaeth ei merch, Mrs Joan Griffiths, Llanrug.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Cafodd tymor newydd y Gymdeithas gychwyn da gyda noson agoriadol lwyddiannus iawn nos lau, 24 Hydref. Y canlynol yw argraffiadau Miss Marian Jones o'r noson: 'Alun o adloniant ydoedd o dan ofal Afon ac Wmffre, waeddw; Katie Wyn Jones, Llandwrog; Myra Turner, Waunfawr; Ifan Tŷ'r Ysgol a phlant Cynefin, sef Heledd, Llŷr ac Ynyr gyda Annette Bryn Parri wrth y piano. Cafwyd noson ragorol a phawb wedi mwynhau ac o'r farn y bydd plant Cynefin mor enwog a'u mam yn fuan iawn. Rhoddodd pob un o'r artistiaid o'u hamser yn rhad ac am ddim. Llywydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a'r gŵr gwadd oedd Mr David John Jones o Gaernarfon, ond a fu ar un adeg — dros ddeugain mlynedd yn ôl erbyn hyn — yn byw yn 1 Maes Eilian; a derbyniwyd rhodd ariannol anrhydeddus i'r Gymdeithas ganddo. Talwyd y diolchgiadau gan Miss Nellie Wyn Jones.'

Nos lau, 7 Tachwedd, cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mr Norman Williams, Brynrefail. Cafodd y gynulleidfa luosog bleser anghyffredin yn gwrandao arno yn sôn mor ddiddorol am Tom Nefyn. Mwynhad pur oedd y cyfan. Llywydd y noson oedd Mrs Katie Lloyd Hughes.

Yn ystod mis Rhagfyr disgwyli'r Mrs Maureen Lennon, Llanberis, ddod i annerch ar nos lau, 5 Rhagfyr, am 7 o'r gloch. Yna, gyda'r Nadolig bron gyda ni, bwriedir cynnal noson o ganu carolau yn y Ganolfan nos lau, 19 Rhagfyr, am 7.30. Bydd y noson yng ngofal Mrs Dilys Williams a Mrs Betty Peris Roberts a Seindorf Arian Deiniolen. Dwy noson i edrych ymlaen yn fawr amdanynt.

Ffilm yn y Chwarel: Bu prysurdeb mawr yn yr Allt Ddu rai wythnosau yn ôl gyda phabell enfawr wedi'i gosod yno am ychydig ddyddiau. Yn ôl yr hyn a ddeallwn cynhyrchwyr ffilm o America oedd yno yn ffilmio rhai golygfeydd o'r Chwarel ar gyfer y ffilm 'Mortal Combat'. Hollywood

ar ein steplan drws!

Colledion: Drwg oedd gennym ddarllen am farw un a fagwyd yn yr ardal yma, sef Arthur Thomas, Llandudno. Fe'i ganed yn y Foel Gron, ac wedi priodi bu ef a'i briod Dilyn, ac Alun eu mab, yn byw yn y Foel. Yr aedden yn aelodau selog o Gapel Sardis. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Derek Williams, Bron Eilian, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli modryb yn Nhremadog; ac a Philip Jones, Tŷ Capel Sardis, a'r teulu ar golli modryb yn Lloegr.

Diolch: Dymuna John Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac ar ôl bod adref. Diolch yn arbennig i staff Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal a'u caredigrwydd. Llauer o ddiolch i'r meddygon teulu, Llanberis, ac i'r nyrs leol. Diolch yn fawr i bawb.

Dosbarth Addysg y Gweithwyr (Diolch i Miss Nellie Wyn Jones am baratoi'r adroddiad canlynol): Bellach daeth tymor dosbarth nos y WEA yn Ninorwig i ben. Er mai bychan oedd nifer yr aelodau yr oedd digonedd o weithgarwch a hwyl yn y dosbarth. I orffen y tymor yn anrhydeddus fe drefnodd Mr Ifor Baines, y tiwtor, i ni fynd ar daith i ymweld â mannau y bu'n sôn amdanynt. Yn rhannu'r daith gyda ni roedd rhai aelodau o ddosbarth WEA Beddgelert.

Bore o gawodydd trymion oedd hi pan gychwynasom ac eira cynta'r gaeaf ar y mynyddoedd o'n cwmpas, ond buom yn ddigon ffodus i osgoi pob cawod ac i gael cerdded o gwmpas yn yr heulwen. Ein hymweliad cyntaf oedd ag Eglwys Llandanwg, sydd bron ar lan y môr yn Ardudwy; sydd o'i wywod prysur guddio'r fynwent o'i chwmpas. Yno gwelsom fedd Sion Philyp, bardd toreithiog a arferai grwydro Arfon a Môn yn clera, ond a foddwyd ar ei ffordd gartref o un o'i deithiau, rhywle rhwng Pwllheli a Llandanwg. Galw hefyd i weld Eglwys Llanfair

(Harlech) lle y claddwyd Ellis Wynne a fu'n rheithor yno, a gweld y ffenestr liw sydd yno i goffáu Edmwnd Prys, a chael sefyll wrth fedd Siân Owen, Ty'n y Fawngog a ddaeth i enwogrwydd pan beintwyd hi'n gwisgo'r siôl fenthyl yn y darlun enwog 'Salem', ac y canwyd amdani gan un o feirdd y fro hon, T. Rowland Hughes.

Yr oedd cinio yn ein aros yng Ngholeg Harlech, ac yna ymlaen â ni i weld cartref Ellis Wynne yn y Las Ynys, a gwrfello darllen pytiau o'i 'Weledigaethau'. Nid oedd modd mynd i mewn i'r plasdy, ond mae gwaith adnewyddu graenus eisoes wedi'i wneud ar y tu allan.

Prif nod y daith oedd ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, gan ein bod wedi astudio rhai o'i gerddi yn y dosbarth. Galwyd ym mhentref Trawsfynydd ar y ffordd yno i weld y gofeb a godwyd iddo. Yna dringo'r ffordd gul, droellog — a gorfod aros fwy nag unwaith i'r bustych symudd oddi ar ein llwybr. Dau frawd, sy'n byw yn yr Ysgwrn heddiw ac roeddynt yn gynnes eu croeso. Roedd camu i mewn i'r tŷ fel camu'n ôl i gyfnod Hedd Wyn ei hun — lloriau llechi, dresel yn llawn o lestri gleision, cloc mawr wyth niwrnod, grât â'r tan hanner ffordd i fyny'r simne, tegell haearn yn hongian wrth gadwyn uwch ben y tân, a'r pot llaeth ar y pentan. Roedd yn amlwg fod y ddau frawd wedi hen arfer â derbyn ymwelwyr i'r tŷ, a'r ddau'n gwybod yn union beth eu ddyletswyddau. Yr oedd un ohonynt yn dangos lluniau o'u hewythr a'r teulu, llythyrau a dderbyniwyd adeg marw Hedd Wyn, ac amryw o lyfrau lloffion tra'r oedd y brawd arall yn y gegin arall yn dangos inni yr amryw gadeiriau eisteddfodol a enillodd Hedd Wyn a'r lle amlycaf, wrth gwrs, yn cael ei roi i'r Gadair Ddu enwog oedd â gwaith mor gywain a symbolaidd arni. Cafodd pawb foddhad mawr a thaith i'w chofio'n hir oedd y dosbarth WEA.

Cyd-ddigwyddiad wedi'r daith oedd i un o'r dosbarth (H.M.R.) fynd ati i ddarllen *Cofiant Hedd Wyn* a darganfod fod milwr o Ddinorwig, sef O. Evans, Tan y Garret (ewythr i Alun W. Evans, Deiniolen) wedi'i gladdu wrth ymyl Hedd Wyn.

PLAID CYMRU WAUNFAWR

FFAIR NADOLIG

NOS WENER, 6 RHAGFYR
YN Y GANOLFAN

am 6.30 o'r gloch


★ STONDINAU AMRYWIOL ★

★ SIŌN CORN ★

CYNHELIR OCSIWN AR Y DIWEDD

Mynediad: 50c (plant 20c)

Dymuna pawb yn siop
VALERIE J. JONES
 Ffrwythau a Llysiau
GLAN Y DON
 STRYD FAWR
LLANBERIS 870301
 Nadolig Llawen a Blwyddyn
 Newydd Dda



Diolch am eich cefnogaeth
 drwy'r flwyddyn

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
 o waith trydanol
 a Larwmaw Lladron

Nadolig
 Llawen
 a Blwyddyn
 Newydd Dda



**11 Rhes Faenol
 LLANBERIS**
 Ffôn: (01286) 871680



Padarn Lake Hotel

NADOLIG
 LLAWEN A
 BLWYDDYN
 NEWYDD DDA
 i chi oll



oddi wrth **TERRY
 VAL, LUCY A'R STAFF**

LLANBERIS, Ffôn: 870260

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Peter ac Irene Hagerty

TOUCHWOOD

**Y Glyn,
 Llanberis**
 Ffôn 871224



**ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN,
 DIDDOROL, DELFRYDOL!**

Galwch yn ein siop i weld drosoch eich hun.




CYFARCHION Y TYMOR



i bawb
 yn yr ardal

oddi wrth

**TRÊN BACH
 LLYN
 LLANBERIS**



Gwesty Crw Fair LLANBERIS

Ffôn 872400



★ Dyddiau'n dal ar gael ar gyfer
 partïon Nadolig, yn cynnwys
 Dydd Nadolig

★ Partïon mawr a phartïon bach

- ★ Cinio Nadolig 3 - 12 cwrs yn dechrau o £6.50
- ★ Lle addas ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewch i fwynhau ein bwyd blasus mewn awyrgylch braf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob ac Annie Kane



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

FFAIR GAELAF

AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS

Rhagfyr 27ain & 28ain 1996 11am - 4pm

Dawnsywyr Caernarfon

Jyglo Cyllill / Sgiliau syrcas

Paentio Gwynebaw

Clywed Stori

Eric Maddern / Angharad Tomos
 Rhian Cadwaladr

Cerflunio Balwnau

Helfa Drysor

Seindorf Arian Llanrug

Côr Lleisiau Bro Ogwen

Holli a Naddu Llechi

(holltwch eich llechen eich hun)

Gweithdy & Arddangosiad
 Castio Pres


Cawl/Bwyd/Diod yn y Caban
 (Caffi Crefftau Fferm Cae Coch)

Crefftau amrywiol

Arddangosfa Nadolig
 gan Blant Ysgol Gymuned
 Penisarwaun
 (1-31 Rhagfyr 1996)



CROESAIR RHAGFYR



AR DRAWS

1. O Glwyd daw y dirmygus! (8)
5. Gŵyl y geni (7)
10. Clawdd, nid ar lan y môr, ond eto'n wlyb (5)
11. Chwyn (5)
12. Darn tenau o garreg, o blas? (4)
13. Morgrug (7)
14. Ie, crochan yn torri, ond heb ei niweidio (8)
15. Pruddglwyf (5)
17. Twll dan y grisiau (5)
19. Yr hyn y dymunwn 5 ar draws i fod (5)
24. Deilen (5)
26. Gofidiau (8)
28. Disgrifiad o adeiladau uchel (7)
30. Bygythiwr (4)
31. Lliw Nesta? (5)
32. Gadael yn ddiymgeledd wrth baratoi i fynd i'r baddon (5)
33. Pan fydd y gost yn disgyn ar rhywun neu rywbeth arall (2,5)
34. Preswylad (8)


I LAWR

1. Yn crymu (7)
2. Cau i mewn (5)
3. Pobl glyfar 5 ar draws (7)
4. Gweithio'n galed (7)
6. Disgrifiadol o'r trimmings adeg y 5 ar draws (7)
7. Arwerthiant (6)
8. Gwlad sydd â 40% ohoni o dan lefel y môr. Mae'n is na gwlad arall hefyd! (8)
9. Creaduriaid y môr ac iddynt gragen galed (7)
16. Trydydd person unigol gwrywaidd y rhagenw personol (3)
18. Offeryn i yrru saethau (3)
20. Enllibwyr (8)
21. Ci tila'n gwneud swm fel cloch (7)
22. Roedd tair ar fryn Calfaria (7)
23. Un sy'n eistedd yn y set fawr (7)
24. Cynllunio patrymau (7)
25. Cefnogaeth o dreth Nia (7)
27. Megis lau i ddyn, canolwr (6)
29. Gall Erica fod yn anferth (5)

ATEBION CROESAIR TACHWEDD

Daeth pedwar ar ddeg o atebion cywir i law erbyn y dyddiad cau, a'r rheiny gan Jean Hughes-Jones, Rhiw; Ceridwen Williams, Llanrug; Mabel Parry, Porthmadog; Mrs G. Gill, Bangor; Mrs Mary Davies, Waunfawr; Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; Mr G. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Elfed Evans, Llanllechid; Catherine A. Jones, Rhiw; Nansi Davies, Rhuthun; Miss Mair Foulkes,

Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E. E. Jones, Rhos-hirwaun ac enillydd y mis yma, sef **N. Hughes, 4 Stryd Newydd, Cwm-y-glo.** Llongyfarchiadau, a £5, i chi. Ni fydd Croesair yn rhifyn Ionawr o'r Eco gan y bydd allan o'r wasg ymhen llai na thair wythnos. Felly, cwblhewch hwn a'i yrru at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 24 Ionawr 1997.



ERIC JONES
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

Dyddiader y Mis

MIS RHAGFYR

5. Iau **DEINIOLEN:** Cyfarfod Nadolig y Chwiroydd yn Ebeneser am 2 o'r gloch.
DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol am 7 o'r gloch gyda Mrs M. Lennon, Llanberis.
6. Gwener **DEINIOLEN:** Ffair Nadolig am 7 yn y Ganolfan.
WAUNFAWR: Ffair Nadolig am 6.30 yn y Ganolfan.
DEINIOLEN: Cinio Undeb y Mamau, Llandinorwig.
9. Llun **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan gyda'r Parchg H. Gwynfa Roberts.
10. Mawrth **BETHEL:** Cinio Nadolig Clwb Bro Bethel yng Ngholeg Llandrillo.
LLANRUG: Merched y Wawr gyda Myrddin ap Dafydd.
BETHEL: Noson Bingo dan ofal y Clwb Ffermwyr Ieuainc.
11. Mercher **BETHEL:** Cinio Nadolig Merched y Wawr yn Llanberis.
12. Iau **PENISARWAUN:** Noson o Garolau am 6.30 yn y Ganolfan.
13. Gwener **DEINIOLEN:** Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan am 7.
19. Iau **DINORWIG:** Noson o ganu Carolau yn y Ganolfan am 7.30 o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol.
PENISARWAUN: Yr Urdd — disgo a pharti Nadolig yn y Neuadd.
22. Sul **DEINIOLEN:** Gwasanaeth o dan ofal yr Ysgol Sul Undebol am 10.30 yn Ebeneser. Gwasanaeth Carolau Undebol am 5 yng Nghefnywaun.
24. Mawrth **DEINIOLEN:** Cymundeb Noswyl y Nadolig am 11.30 p.m.
25. Mercher **DYDD NADOLIG. DEINIOLEN:** Gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig am 9.30 a.m.
29. Sul **PENISARWAUN:** Naw llith a charol yn yr Eglwys am 4.30 p.m.
DEINIOLEN: Naw llith a charol yn yr Eglwys am 5.30 p.m.

RHODDION

£25: Teulu Rudkin, Llanberis.
£10: Er Cof am Mrs Katie Williams gan Gracie, Eirlys a Now. Stanley Wrigley. Eurwen Wrigley. Bob ac Eileen Roberts, Northampton, er cof am Mrs Maggie Humphreys, 32 Rhydfadog, Deiniolen gynt.
£5: Gari Davies, 9 Maes Derlwyn, Llanberis. Wil Jones a'r teulu, Y Dreffan, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Ellen, Tecwyn, Sioned a Melfyn, Llanrug. Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug. Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun. Teulu Melin-y-wig, Waunfawr. Mrs Liz Roberts, Dalar Deg, 7 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor. Di-enw, Waunfawr.

£3: Idwal a Lynnwen, Perthi, Bethel. John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig. Mrs Nellie Roberts, 25 Tref Eilian, Waunfawr.

£2: Mr a Mrs Owie Hughes, 50 Rhydfadog, Deiniolen. Lliffon Owen, 9 Stryd y Wyddfa, Llanberis. Siôn a Leah, 10 Coed Marian, Caernarfon. Dylan a Wendy Roberts, 3 Jubilee Terrace, Y Felinheli.



R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwrch nerth **ALOE VERA.** Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

CHWARAEON

LLENWI'R BWLCH

Trist iawn oedd clywed am ymddiswyddiad Malcolm Allen fel hyfforddwr pêl-droed Gwynedd. Roeddwn wedi bwriadu cael cyfweiliad ag ef ynglŷn â'r swydd a'i brofiad o chwarae pêl-droed ar y lefel uchaf.

Gobeithio y cawn hyfforddwr newydd yn fuan. Mae canlyniad trychinebus ein tîm cenedlaethol yn yr Iseldiroedd wedi dangos fod angen pob cymorth ar wreiddiau'r gêm yng Nghymru.

Anaml iawn y mae Rush a Giggs — y talentau naturiol — yn ymddangos. Rhaid i wlad fechan fel Cymru feithrin ei thalentau.

Gallwn ddysgu gwers oddi wrth y clybiau rygbi a chried yn lleol sydd o'r diwedd wedi sylweddoli pwysigrwydd cael hyfforddwr cydnabyddedig i ieuencid y clybiau.

Nid fy lle i yw awgrymu atebion i Bobby Gould a phwyllgor rhanedig y Welsh FA, na dweud wrth unrhyw glwb lleol sut i drefnu eu clwb, ond hoffwn wneud un awgrym: Teimlaf fod unrhyw lwyddiant a ddaw ym myd pêl-droed Cymru yn seiliedig ar chwyldro yn ffurf clybiau Cymru. Y mae'r patrwm yn seiliedig ar batrwm gwlad fach arall, sef yr Iseldiroedd. Yno, cyn y caiff unrhyw glwb ymuno â'r gynghrair genedlaethol rhaid iddynt gynnal pum tîm — tîm cyntaf, ail dîm, tîm ieuencid, ac yna timau — 13, — 12 ac i nifer ohonynt — 9. Mae gan bob tîm hyfforddwr trwyddedig sy'n atebol i'r prif hyfforddwr. Y mae felly gysondeb yn null chwarae pob tîm o fewn y clwb.

Rhaid i'r clybiau gymeryd drosodd o'r ysgolion. Yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol mae'n sicr fod Ysgol Dyffryn Ogwen wedi chwarae 20 o gêm, o Fotwnnog yn y gorllewin i Llandudno yn y dwyrain, a Chaergybi yn y gogledd. Cystadleuaeth go iawn rhwng ysgolion — a phawb â'i fryd ar gyrraedd tîm y sir. Eleni, dim ond pum gêm, a'r rheiny o fewn Ynys Môn y bydd tîm hŷn yr ysgol acw yn ei chwarae. Gan fod timau ysgol yn dimau 'ardal', mae'r bechgyn ysgol yn colli allan ar lefel uwch o bêl-droed na safon y clybiau bore Sadwrn sy'n cystadlu ar lefel leol yn unig. Rhaid cryfhau'r clybiau fel eu bod yn gallu darparu'r hyfforddiant a'r cyfle gorau posibl i'r chwaraewyr ifainc.

Ond, yn ôl at y syniad. Fel enghraifft, cymerwn bnawn Sadwrn gyda gêm rhwng Llanrug a Llanberis, yn Llanrug. Mae'r bws yn gadael Llanberis, ac arno dîm dynion, tîm — 18, tîm — 15 a — 13 (mae'r timau — 12 a — 9 wedi chwarae yn y bore). Cyrraedd Eithin Duon. Un gêm yno, yna mae'r bws yn mynd ymlaen i Ysgol Brynrefail. Dwy gêm yno (un ar y cae-pob-tywydd), a'r gêm — 13 ar gae yr Ysgol Gynradd. Wedi'r gêm, cyfarfod mewn man canolog ar gyfer byrbryd a sgwrs. Y mae cymdeithasu a thrafod y gêm yn rhan anatod o unrhyw gamp. Byddai clwb Llanberis wedi cyfarfod clwb Llanrug fel uned nid ar wahân heb unrhyw gysylltiad. Oni fyddai'r patrwm yma hefyd yn fanteisiol wrth ddenu a rhoi cyhoeddusrwydd i noddwyr? Cwyn arall gan rai o'r

NEWYDDION O'R YSGOL

Soniais eisoes am nifer o ddisgyblion yr ysgol a chwaraeodd i dimau'r ardal yn y prif gampau. Braf nodi fod rhai wedi cyrraedd safon uwch. Ar y maes hoci mae'r ddwy Llinos — Roberts a Williams — wedi ennill lle yng ngharfan — 18 tîm hoci ysgolion gogledd Cymru.

Ar y cwrw pêl-rhwyd bydd Siân Green, Lianne Allsup, Meleri Griffiths, Nicola Jones, Michelle Clark a Claudette Fleming yng ngharfan — 14 Gwynedd.

Mae traddodiad nofio'r ysgol yn parhau gyda Elin Dafydd a Nia Elin Williams yn nhim nofio Eryri. Daeth Elin yn gyntaf yn ei ras medli dros 200m. Yn dilyn y perfformiad yma dewiswyd hi i gynrychioli tîm y gogledd. Unwaith eto fe noddwyd ras traws-gwlad i redwyr addawol Cymru gan Banc y TSB. Cynhaliwyd y ras yn Llanidloes a daeth Elin Harding o Lanberis yn 42 allan o 150.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



Elin Dafydd a Nia Elin Williams.



Elin Harding.

WAUNFAWR YN DAL I DDATBLYGU

Yn y blynyddoedd diwethaf bu cryn sylwi — gydag edmygedd — ar ddatblygiad chwaraeon ym mhentref y Waun. Bu'r elfen bentrefol yn elfen hanfodol yn y datblygiad. Mae'n amlwg yn 'fudiad' sy'n credu mewn datblygu a hynny er lles y pentrefwyr.

Rhoddaf sylw y tro yma i dimau pêl-droed y pentref. Rhedir timau — 9, — 11 a — 13 yng Nghynghrair Gwyrfa i charfan — 7 sy'n chwarae

clybiau ieuencid ar hyn o bryd yw fod bechgyn yn gadael y clwb am glybiau eraill ar ôl i'r clwb roi yr arweiniad cynnar i'r bechgyn. Peth prin yw Alan Vincent a Gwil Bach yr ardaloedd yma erbyn hyn. 'Lle mae'r trophy i gael flwyddyn yma, hogia?'

Y mae gan bob clwb ddyletswydd i bêl-droed Cymru. Y mae meithrin y gwreiddiau yn mynd i fod yn hanfodol yn y blynyddoedd nesaf. Ai barn rhyw hen 'has been' sydd yn y golofn hon unwaith eto, neu ... Beth am ymateb? Y mae Cymru yn dibynnu ar gadarnleoedd y bêl-droed fel bro'r Eco, onid ydi?

gêm cyfeillgar. Er mwyn meithrin olyniaeth a phatrwm chwarae a hyfforddi y bwriad yw fod yr un hyfforddwr yn gweithio gyda'r chwaraewyr gyda'u taith trwy'r oedrannau y clwb. Y bwriad yw ymestyn eto, gyda tîm — 15 y tymor nesaf. Mae hyn yn gryn ddatblygiad ac yn amlwg yn seiliedig ar drefniadaeth a gweledigaeth wedi ffurfio y clwb yn hydref 1996.

Yn ddiweddar derbyniodd y clwb grant o £1,475 gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r arian yn benodol ar gyfer offer pêl-droed, heb gynnwys dilladu. Mae telerau yn cael eu gosod os am dderbyn y grant. Y prif un, fod y clwb yn meithrin rhwydwaith o hyfforddwyr trwyddedig o fewn y clwb. I'r perwyl hwn aeth chwech o oedolion y pentref ar gwrs 'Leader Award' a drefnir gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru. Y mae yn gwrs 12 awr (6 x 2awr) sy'n cael ei redeg gan Dave Lloyd o Fae Colwyn, y trefnydd rhanbarthol dros y gogledd. Rhoddir pwyslais ar allu yr hyfforddwr i gyfathrebu gyda'r ieuencid, a chyflwyno sgiliau mewn ffordd atyniadol gydag elfen gref o fwynhad. Ceisir pwysleisio yr angen i gael rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad sgiliau. Y mae chwe

oedolyn arall newydd gwblhau'r cwrs. Mae carfan niferus ar yr ochr hyfforddi felly. Mae'r dwsin hefyd wedi mynychu yr 'Emergency Aid Award', peth hanfodol i bob clwb erbyn hyn. Nid yw'n ddigon da i gario bwced a spwng heddiw — rhaid gwybod beth i'w wneud!

Yn amlwg mae busnesau'r pentref yn chwarae rhan bwysig yn y datblygiad. Noddwyd gwerth £2,000 o ddillad pêl-droed drwy haelioni Barcud, Hafod Body Shop, Carpedi Geraint Owen, Snowdonia Fire Protection, Garej Pantywaun (Skoda), a Welpar Cymru.

Diolch i Jeff Daniels a Brian Parry am eu cymorth gyda'r erthygl yma. Cawsom orig ddiddorol, gyda Jeff a minnau yn trafod nifer o bwnau gwlyb yn Nhal-y-sarn a llefydd ecsotig tebyg. Yr oedd parodrwydd a brwdfrydedd y ddau yn amlwg. Nododd Jeff un pwynt diddorol: ei fwriad fyddai hyfforddi ieuencid lleol i chwarae i dîm ieuencid Caernarfon, fuaasai'n chwarae yn y gynghrair genedlaethol, gyda'r tîm ieuencid yn teithio gyda'r prif dimau i'r gêm. Ydi'r Gymdeithas Pêl-drod, a'r timau lleol, yn ddigon dewr i anghofio eu plwyfoldeb traddodiadol a chwilio am wir ddatblygiad. Amser a ddengys.